PATHWAYS

# WJEC Work Welsh / Cymraeg Gwaith Qualification

REGULATED BY OFQUAL
DESIGNATED BY QUALIFICATIONS WALES

# ASSESSMENT PACK

Teaching from 2019



# WJEC WORK WELSH/CYMRAEG GWAITH 2019

# ASSESSMENT PACK

A selection of tasks and exercises for the purpose of providing customer service

The purpose of this assessment pack is to offer materials to do with providing customer service which teachers can use as they are or adapt them, as needed, in order to use them in the classroom.

The selection of tasks and exercises is arranged according to Unit and Level.

# CONTENTS

## Units

Unit 1:Speaking Welsh in the workplace 1

Unit 2: Listening and writing for the purpose of customer service 7

Unit 3: Reading and writing for the purpose of customer service 14

Unit 4: Writing for a Purpose 22

## Appendices

Essential Vocabulary and Structures 35

Assessment records 48

Candidate Authentication Sheet 68

# Unit 1: Speaking Welsh in the workplace

**Task: Entry 3**

**Siop Flodau y Dylluan Wen**

Rydych yn gweithio mewn siop o'r enw 'Blodau Tylluan Wen'. Mae Mrs Baker Fferm Pant y Dŵr, Llanllawen yn dod i'r siop i roi archeb am flodau ar gyfer priodas ei merch blwyddyn i fis Medi nesaf. Mae eisiau gwybod pris blodau ar gyfer ei merch a dwy forwyn, blodau yn yr eglwys, blodau ar y byrddau a blodau botwm i chwech o ddynion. Nid yw Stanley Jones yn y gwaith tan y prynhawn. Byddwch yn cyflwyno sgript sy'n dangos sut y byddech yn:

- Cyfarch y cwsmer yn briodol
- Gwrando ar gais y cwsmer
- Gofyn cwestiynau addas
- Cloi'r sgwrs yn briodol gan egluro beth fyddwch yn ei wneud nesaf

**Task: Entry 3/Level 1**

Rydych yn gweithio yn rhan-amser yn y dderbynfa yn y feddygfa leol. Daw claf i'r dderbynfa ar frys gwyllt yn gofyn am gael gweld meddyg ar unwaith. Rydych yn ceisio delio ag e. Yn ystod y sgwrs rhyngoch chi ag ef byddwch yn:

- Ei gyfarch yn briodol
- Gofyn iddo a oes ganddo apwyntiad i weld meddyg
- Egluro bod angen trefnu ymlaen llaw fel arfer
- Dweud bod lle gwag yn digwydd bod ar ddiwedd y bore, 11.50 os yw'n barod i aros tan hynny.
- Gofyn am wybodaeth bersonol - cyfeiriad, dyddiad geni, y broblem, ei feddyg teulu
- Unrhyw bwynt arall perthnasol
- Gorffen y sgwrs yn briodol

**Task: Entry 3/Level 1**

Rydych ar brofiad gwaith yn y feddygfa leol ac yn gweithio gydag un o'r nyrys yn y practis. Daw mam a'i phlentyn i weld y nyrs. Mae wedi dod i gael newid y 'dressing' ar goes y plentyn. Fel rhan o'r sgwrs byddwch yn gofyn (i) enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r plentyn, (ii) sut cafodd y plentyn ei anafu, (iii) sut mae'n teimlo erbyn hyn ac yna yn rhoi cyfarwyddiadau byr i ystafell y nyrs. Defnyddiwch **chi/ti** yn briodol. Byddwch yn gorffen y sgwrs yn briodol.

**Task: Entry 3/Level 1**

Rydych yn gweithio yn yr adran cleifion allanol. Mae Mrs Kate Jones, 60 oed wedi dod i'r clinig allanol yn yr ysbyty. Mae ganddi apwyntiad i weld Dr Hassan, y rhiwmatolegydd am 1.30pm.

Cyn iddi fynd i weld y meddyg, rhaid i chi gael peth gwybodaeth ganddi yn cynnwys enw, cyfeiriad, dyddiad geni, gwybodaeth am unrhyw dabledi a moddion/ffisig mae'n eu cymryd ac ers pryd mae'n eu cymryd, beth yw'r symptomau ar hyn o bryd. Rhowch gyfarwyddiadau sut i fynd i glinig Mr Hassan. Gofynnwch a oes angen cadair olwyn arni.

Cofwich gyfarch a ffarwelio â'r claf yn briodol.

© WJEC CBAC Cyf.

**Mewn garej**

Rydych chi'n gweithio mewn garej yn eich ardal. Chi sydd yn y dderbynfa tra mae'r person arferol yn cael ei ginio. Mae cwsmer newydd yn galw yn y garej ac yn gofyn am wybodaeth am y garej. Dywedwch wrth y cwsmer pa wasanaethau mae'r garej yn eu cynnig.

**Mewn canolfan adeiladu**

Rydych chi'n gweithio mewn canolfan nwyddau adeiladu. Mae cwsmer yn dod at y dderbynfa i holi am y gwasanaeth a'r nwyddau rydych chi'n eu cynnig/gwerthu yn y ganolfan. Gallwch sôn am y gwahanol nwyddau (e.e. brics, sment, tywod, coed, paent, offer, nwyddau gardd, drysau, ffenestri). Gallwch gyfeirio at luniau mewn taflenni a chatalogau i'ch helpu i roi gwybodaeth. Hefyd, gallwch gyfeirio at wefan y cwmni.

(Gallai ymgeiswyr Lefel 1 ymhelaethu trwy sôn y gellir trefnu i gael nwyddau nad ydynt mewn stoc o ganghennau eraill y cwmni.)

**Mewn canolfan hamdden**

Rydych chi'n gweithio mewn canolfan hamdden. Dywedwch wrth y teulu sy'n ymweld â'r ganolfan beth mae'r ganolfan yn ei gynnig ar gyfer plant ac oedolion. Soniwch am unrhyw gynigion arbennig. Cofiwch roi manylion am yr oriau agor a'r prisiau.

**Mewn meithrinfa**

Rydych chi'n gweithio yn y feithrinfa leol. Rydych yn derbyn galwad ffôn gan riant ifanc yn gofyn am fwy o wybodaeth am y feithrinfa. Dywedwch wrth y rhiant beth mae'r feithrinfa yn ei gynnig ar gyfer plant 0-3 oed; hefyd soniwch am unrhyw wasanaeth i blant oed cynradd. Cofiwch sôn am yr oriau agor a'r prisiau.

**Mewn salon trin gwallt**

Rydych yn gweithio mewn salon trin gwallt. Dywedwch wrth y cwsmer beth sy'n cael ei gynnig, gan ddefnyddio delweddau addas.

**Mewn canolfan dydd**

Rydych chi'n gweithio mewn canolfan dydd ar gyfer pobl oedrannus. Rydych yn cyfarfod â pherson sy'n dod i'r ganolfan am y tro cyntaf. Gofynnwch iddo am ychydig o wybodaeth am y person, ei ddiddordebau; ydy e/hi yn adnabod rhywun yn y ganolfan, beth hoffai ef/hi ei wneud yn y ganolfan (unrhyw weithgareddau?). Gallwch ofyn am unrhyw anghenion penodol – ydyn nhw angen cludiant yno ac adref o hyn ymlaen.

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Level 1**

'Bwyta'n iach' yw thema'r tymor yma. Mae angen i'r plant ddod â 3 math o ffrwythau a llysiau gwahanol i'r dosbarth er mwyn creu arddangosfa o fwyd iach. Rydych yn ffonio rhiant i ofyn a yw'n bosib i'w phlentyn ddod â ffrwythau neu lysiau o liw arbennig i'r dosbarth ddydd Gwener.

**Task: Level 1**

Rydych yn gweithio yn y feithrinfa leol. Mae'r feithrinfa yn cynnal 'ffair addewidion' i godi arian er mwyn cael offer newydd i'r plant. Mae'r rheolwr wedi gofyn i chi ffonio canolfan arddio leol ar ran y feithrinfa i ofyn am gefnogaeth i'r ffair.

**Task: Level 1**

Sgwrs rhyngoch chi a'r cwsmer.

Rydych yn gweithio yng nghanolfan **Bow-Wow**, sy'n cynnig llety/gwyliau i gŵn. Daw cwsmer newydd i'r dderbynfa i holi am y ganolfan. Mae ganddi gi bach o'r new Marco. Gallwch roi gwybodaeth fel:

- Lle i faint o gŵn sydd yn y ganolfan
- Y telerau/prisiau fesul dydd/wythnos
- Oriau agor /cau
- Cyfleusterau/trefniadau ymarfer i'r cŵn
- Unrhyw wybodaeth arall

Cynigiwch fynd â hi o amgylch y ganolfan iddi gael gweld y lle.

Os oes ganddi ddiddordeb mewn archebu lle i Marco dylai wneud hynny o leiaf wythnos ymlaen llaw drwy lenwi ffurflen archebu ar wefan y ganolfan www.bow-wow.com Gorffennwch y sgwrs yn briodol.

**Task: Level 1/Level 2**

Rydych chi'n gweithio mewn canolfan hamdden. Eglurwch wrth y cwsmer beth sy'n cael ei gynnig yn y ganolfan. Soniwch am unrhyw ddarpariaeth sydd gennych ar gyfer grwpiau arbennig

– plant, oedolion, henoed, pobl ag anableddau. Rhowch wybodaeth hefyd pryd mae'r gweithgareddau hyn yn digwydd a'r gost am bob gweithgaredd.

**Task: Level 1/ Level 2**

(To be used with Unit Construction & Built Environment L1/2)

(There are other tasks linked with this task to be seen in Units 2, 3 a 4)

Rydych wedi cael prentisiaeth gyda Frank Jones yn iard goed ***Coed ac Ati***. Mae Mr Ifor Jackson yn dod i'r iard i ofyn a fyddech yn gallu adeiladu a gosod 'decking' yn yr ardd gefn yn ei gartref.

Mae eisiau creu rhan o'r ardd ar gyfer cael barbeciw a lle i osod y bwrdd bwyta allan.
Mae Mr Jackson wedi gwneud cynllun o'r ardd gyda mesuriadau i chi gael syniad o'r hyn y mae ei angen.

© WJEC CBAC Cyf.




Mae Mr Jackson eisiau i Frank a chithau ddod i'w gartref i fesur ac i drafod costau. Mae yn nodi ei gyfeiriad fel **Cartref Clud, Pontithfaen, Llanllawen. LL816TU. Rhif ffôn 01763444666.**

Gan nad yw Frank Jones, y perchennog yn y gwaith, rydych chi'n trafod gyda Mr Jackson a byddwch yn:

**(i)** Creu sgript ar ffurf "chware rôl" fydd yn dangos sut yr ydych wedi defnyddio'r Gymraeg wrth drafod â Mr Jackson. Yn ystod y sgwrs byddwch yn dangos eich bod yn gallu rhoi barn ar gwestiwn gan y cwsmer. Byddwch yn gorffen y sgwrs drwy ddweud beth fyddwch yn ei wneud nesaf.

**(ii)** Yna byddwch yn gwneud nodyn o'r sgwrs a'r archeb ar gyfer y perchennog.

**Mewn canolfan adeiladu**

Rydych chi'n gweithio mewn canolfan nwyddau adeiladu. Eglurwch wrth y cwsmer pa nwyddau rydych chi'n eu gwerthu; soniwch hefyd am unrhyw wasanaeth arbennig y gellwch ei gynnig. Gallwch sôn am unrhyw gynigion neu ddisgownt arbennig. Cyfeiriwch bod llawer o wybodaeth ar wefan y cwmni www.abcadeiladu.com

**Mewn canolfan hamdden**

Rydych chi'n gweithio mewn canolfan hamdden. Eglurwch wrth yr ymwelydd/cwsmer beth sy'n cael ei gynnig yn y ganolfan. Soniwch am unrhyw ddarpariaeth ar gyfer grwpiau arbennig – plant, oedolion, henoed, pobl ag anableddau.

**Mewn salon trin gwallt**

Rydych yn gweithio mewn salon trin gwallt. Mae gofyn i chi ddelio â chwsmer anfodlon. Mae'r cwsmer yn anhapus gyda'r gwasanaeth a chyflwr ei gwallt. Holwch pa gynnyrch sy wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol. Rhowch gyngor i'r cwsmer ar sut i wella cyflwr y gwallt.

**Mewn cartref preswyl**

Rydych chi'n gweithio mewn cartref preswyl i bobl oedrannus. Manylwch wrth y cleient pa wasanaethau rydych chi'n eu cynnig (e.e. gofal nyrsio, gofal preswyl).

© WJEC CBAC Cyf.

D.S. Dylech benderfynu pwy yw'r cleient – y person oedrannus sy'n dymuno cael lle yn y catref neu aelod o deulu'r person sy'n gwneud ymholiadau ar ran y person oedrannus. Gall y wybodaeth gynnwys nifer y staff, nifer y preswylwyr, y drefn reoli, costau ac ati, rhaglen weithgareddau ar gyfer preswylwyr, cymorth unigol. Hefyd gallwch gyfeirio at unrhyw daflenni gwybodaeth sydd ar gael.

**Mewn canolfan hamdden**

Rydych yn gweithio mewn canolfan hamdden. Manylwch wrth y cwsmer pa wasanaethau rydych chi'n eu cynnig. Gallwch ganolbwyntio ar eich maes diddordeb chi, os dymunwch, e.e. nofio, ystafell ffitrwydd.

Rydych yn gweithio gyda phlant ar gynllun chwarae yn y ganolfan hamdden yn ystod y gwyliau ysgol. Darganfyddwch beth maen nhw'n dymuno ei wneud – gallwch gynnig rhestr o weithgareddau a'u cael i benderfynu ar raglen unigol/neu fel grŵp/tîm.

**Mewn canolfan arddio**

Rydych yn gweithio mewn canolfan arddio. Mae cwsmer ifanc di-brofiad yn dod atoch i gael gwybodaeth am beth mae'r ganolfan yn ei gynnig i'r cwsmer. Byddwch mewn sefyllfa i gynnig dewisiadau iddo/iddi, e.e. gwahanol fathau o hadau, coed ifanc a phlanhigion, offer, cemegolion lladd chwyn ac ati; gwrtaith. Gallwch hefyd gyfeirio at unrhyw gynigion arbennig a hefyd sesiynau hyfforddi i'r garddwr di-brofiad.

**Mewn swyddfa gwerthwyr tai**

Rydych yn gweithio mewn swyddfa gwerthwyr tai. Dydy'r cwsmer ddim wedi bod mewn swyddfa gwerthwr tai o'r blaen. Darganfyddwch beth mae'r cwsmer ei angen.
(Ydy o/hi am brynu neu rentu tŷ/fflat/tir? Ym mha ardal? Faint mae o/hi'n dymuno dalu ... Rhowch ystod o brisiau ... o dan £100k, £100k-£150k; rhent o £300 y mis ac yn y blaen. Mae digon o gyfle i ddatblygu sgwrs yma.)

**Task: Level 2/Level 3**

Rydych yn gweithio yn y swyddfa docynnau yn Theatr Iago. Mae cwsmer yn galw heibio i archebu tocynnau i grŵp o 15 o bobl ifanc ar gyfer perfformiad o'r sioe 'Les Miserables' gan gwmni theatr 'Cymru Ifanc'. Mae un o'r bobl ifanc mewn cadair olwyn.

Rhowch wybod am ddyddiadau'r perfformiad, pris y tocynnau, pris taflen wybodaeth am y sioe, pa seddi sydd ar gael – gallwch ddweud nad oes seddi ar gyfer y grŵp gyda'i gilydd, rhaid eu gwasgaru fesul 2 a 3.

Dydy hynny ddim yn plesio'r cwsmer, ond mae'n fodlon derbyn hynny yn y diwedd. Gallwch gynnig gostyngiad yn y pris am grŵp o fwy na 10. Bydd angen dod i benderfyniad ar y dyddiad, pris i'w dalu am y tocynnau, ac unrhyw faterion eraill perthnasol erbyn diwedd y sgwrs gyda'r cwsmer.

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Level 3**

*Example Task, which can be adapted for many subjects:* (parts 2 a 3 can be used as evidence of completing task 1)

Introduction:

Rydych wedi bod yn gweithio mewn canolfan i'r digartref fel rhan o'ch profiad gwaith yn y coleg. Mae'r gwasanaeth sy'n cael ei roi yn y ganolfan wedi cael effaith mawr arnoch ac rydych wedi penderfynu casglu arian tuag at y ganolfan gyda help eich cyd-fyfyrwyr /disgyblion.

Mae June Phillips, rheolwr y ganolfan wedi dweud ei bod yn ceisio casglu arian i gael peiriant darparu llysiau oherwydd fod mwy a mwy yn dod i'r ganolfan i gael lloches a bwyd a byddai peiriant o'r fath yn helpu'r staff i baratoi mwy o brydau. Byddwch yn:

**Part 1**

1. Rhoi cyflwyniad i'ch cyd-fyfyrwyr yn disgrifio'r ganolfan a'r gwaith a wneir yno

   Rydych yn disgrifio yn dreiddgar yr hyn yr ydych eisiau wneud a'r math o gymorth yr ydych ei angen gan y grŵp/dosbarth i gasglu'r arian ar gyfer y ganolfan

2. Rydych yn gofyn cwestiynau treiddgar er mwyn cael syniadau ar sut i gasglu'r arian. Rydych yn gwrando ar syniadau gweddill y grŵp ac yn rhoi barn bendant ar yr awgrymiadau

3. Rydych yn penderfynu y byddwch chi a gwirfoddolwyr o'r grŵp yn cael noson cysgu allan wedi'i noddi ar gampws y coleg/ysgol. Mae eich tiwtor yn gwirfoddoli hefyd

4. Rydych yn dod i benderfyniad pendant ac yn egluro beth fyddwch yn ei wneud nesaf e.e cysylltu â'r pennaeth, rheoliadau iechyd a diogelwch ayb

5. Rydych yn diolch i bawb am eu cydweithrediad.

**Part 2**

1. Rydych yn cynllunio poster/neges i'w roi ar dudalennau cymdeithasol y coleg/ysgol yn rhoi gwybodaeth am y noson cysgu allan, i bwy yr ydych yn casglu arian, dyddiad, lleoliad ayb a sut i noddi'r gwirfoddolwyr.

**Part 3**

1. Mae'r noson cysgu allan wedi bod yn llwyddiant ac yn lot o hwyl. Rydych yn anfon llythyr/ebost i'r pennaeth yn disgrifio'r noson, faint o arian yr ydych yn debygol o'i gasglu a diolch i'r coleg/ysgol am bob cefnogaeth a gafwyd i wneud y noson cysgu allan yn llwyddiant.

**Mewn garej**

Rydych chi'n gweithio mewn garej. Rhowch wybodaeth i'r cwsmer pa wasnaethau rydych chi'n eu cynnig - (e.e. gwasanaeth llawn bob 20,000 o filltiroedd ar gyfer y gwahanol fathau o geir VW, BMW, Audi; newid yr olew ac ati; newid disgiau/padiau brêcs; teiars newydd; trwsio ar ôl damweiniau). Gorau oll os gallwch sôn am brisiau neu gynigion arbennig, e.e. gostyngiad ar brisiau teiars, prawf MOT. Dewis da o geir ail law.

© WJEC CBAC Cyf.

# Unit 2: Listening and writing for the purpose of customer service

**Task: Entry 3**

Rydych yn gweithio mewn siop o'r enw 'Blodau Tylluan Wen'. Mae Mrs Baker wedi bod yn y siop yn holi am flodau ar gyfer priodas ei merch (*see Speaking Welsh in the Workplace E3, above*).

Bydd angen i chi gofnodi'r sgwrs er mwyn i'r rheolwr wybod sut a beth i'w brisio a phwy sydd angen gwybod.

Byddwch angen:

- Creu ffurflen negeseuon addas ar gyfer y busnes
- Gwrando a chofio cais y cwsmer
- Cofnodi'r neges yn gywir ar y ffurflen i'r rheolwr

**Task: Entry 3/Level 1**

Listen to a phone message and make a note of the information on a suitable form. *The tutor will need to prepare a script based on the scenario below and a recording of the script for this task.*

Rydych yn gweithio mewn swyddfa yn y theatr leol. Mae athro drama yr ysgol uwchradd yn ffonio i holi a fyddai'n bosibl i'w grŵp drama gael dod i'r theatr i ymarfer ar gyfer perfformio eu sioe flynyddol. Mae'n holi a fyddai'r theatr yn fodlon i hynny, beth yw'r telerau/cost am sesiwn bore cyfan ar ddydd Iau, Mai 20, a pha adnoddau fydden nhw'n cael defnyddio yn y theatr (e.e. ystafelloedd newid, offer sain a goleuo).

Gwrandewch yn ofalus a chofnodwch y wybodaeth yn glir a chywir ar y ffurflen bwrpasol ar gyfer eich rheolwr, er mwyn iddo allu rhoi ateb i'r athro drama.

**Part 1**

Rydych yn gweithio fel prentis yn iard goed ***Coed ac Ati***.
Mae Mr Jackson wedi bod yn y swyddfa yn archebu 'decking' gan y cwmni. Rydych wedi trafod ei anghenion gydag ef. Wedi iddo adael y swyddfa, rydych yn cofnodi'r sgwrs ar daflen y cwmni a'i roi ar ddesg y perchennog.

© WJEC CBAC Cyf.

| **Negeseuon *Coed ac Ati*** | |
|---|---|
| Neges i: | |
| Gan:<br>Enw: | |
| Cyfeiriad: | |
| Rhif Ffôn: | |
| Neges:<br><br><br><br>Eich Llofnod: | <br><br><br><br>Dyddiad: |

**Part 2**

Mae Mr Jackson yn ffonio'r swyddfa. Mae ef a'r teulu yn hapus efo sut mae'r ‘decking’ newydd yn dod yn ei flaen. Mae Mrs Jackson wedi penderfynu y byddai yn hoffi ffens a chanllaw o flaen y decking. Buasai yn hoffi postiau wedi eu cerfio a chanllaw hanner crwn. Byddwch yn amcangyfrif faint o bostiau a chanllaw fydd angen. Gallwch ddilyn y cynllun yn Tasg 1.

Bydd hyn yn newid yr archeb wreiddiol. Felly, bydd rhaid i chi lenwi ffurflen archeb y cwmni er mwyn i'r gweinyddwyr yn y swyddfa ailwneud y bil (anfoneb).

***Coed ac Ati***
**Ffurflen Archebu**

Enw Cwsmer: ____________________________________________

Cyfeiriad: ____________________________________________

Rhif Ffôn: ____________________________________________

Archeb:

Dyddiad: _________________________ Arwyddo: ________________________________

© WJEC CBAC Cyf.

Rydych yn gweithio yn y dderbynfa un prynhawn. Mae Mrs Carol Waterman yn galw i mewn i gael sgwrs gyda'ch pennaeth, Mair Tomos.

Gwrandewch ar y sgwrs a fu rhyngoch. Cofnodwch y prif ffeithiau ar y ffurflen bwrpasol. Lluniwch e-bost byr i Mair Tomos yn rhoi'r wybodaeth yn gywir a chlir.

**Sgript:**

| | |
|---|---|
| Mrs Waterman: | Prynhawn da. Carol Waterman ydw i. Fydd hi'n bosibl i gael gweld Mair Tomos, os gwelwch yn dda. |
| Chi: | Dydy Miss Tomos ddim yn y swyddfa prynhawn 'ma. Fydd hi ddim yn ôl tan tua 2.30 pnawn 'fory. Alla i helpu? |
| Mrs W: | Fyddech chi'n gallu rhoi ei rhif ffôn symudol i mi os gwelwch yn dda? |
| Chi: | Does gen i ddim caniatad i wneud hynny, mae arna i ofn. Ond rwy'n ddigon hapus i gymryd eich manylion a rhoi eich neges iddi pan ddaw i mewn pnawn yfory. |
| Mrs W: | O'r gorau. Carol Waterman ydw i. Ysgrifennydd Cyfeillion Ysbyty'r Bont. Roeddwn i eisiau rhoi gwybod i Mair bod y cyfarfod roedd hi'n mynd i siarad ynddo yn Ysbyty'r Bont wedi cael ei ohirio tan mis nesa'. Mae sawl aelod ddim yn gallu bod yn bresennol y mis hwn. |
| Chi: | Gohirio tan fis nesa'. Oes dyddiad newydd? |
| Mrs W: | Rydyn ni'n awgrymu Gorffennaf 4, am 4.30pm. Gobeithio bydd hynny'n gyfleus i Mair. Fyddai'n bosib iddi hi gadarnhau mewn diwrnod neu ddau. |
| Chi: | Dwi wedi nodi'r wybodaeth. Fe wna i adael nodyn ar ei desg. |
| Mrs W: | Diolch yn fawr i chi. Bydd hynna'n help mawr. |
| Chi: | Popeth yn iawn. Prynhawn da i chi. |

**Task: Level 2/Level 3**

The script below will need to be recorded:

Cyfarfod Staff Grŵp Adloniant Cartref Preswyl

Bodlew Dyddiad: 2 Chwefror

Presennol: Mrs Catrin Parry, dirprwy reolwraig
Miss Sulwen Thomas, gweithiwr allweddol
Mrs Anna Evans, gweithiwr allweddol
Mrs Veronica Jones, gofalwraig
Mrs Gwladys Williams, cynrychiolydd y trigolion

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| Catrin | Croeso i chi i gyd a diolch i chi am roi eich awr ginio i fyny genod a diolch i chitha Gwladys am ddod. Dw i wedi rhannu cofnodion cyfarfod mis Ionawr, ydi pawb wedi cael cyfle i'w darllen a wnaiff unrhywun gytuno? |
| Gwladys | Diolch am gael hwn neithiwr Catrin, ges ei ddarllen yn fy amser fy hun. Diolch a chytuno. |
| Pawb | Cytuno. |
| Catrin | Reit ta, diolch i chi a diolch i Anna am gymeryd y cofnodion heddiw. Reit rhif un ar yr agenda heddiw, ateb gan Parch Glenys? Sulwen? |
| Sulwen | Do mae wedi ateb ac mae'n gallu dod am 10 y bore ar y 31 Mawrth i gynnal gwasanaeth a chymun Pasg. Mae'r Parch Aled am ddod hefyd. O ia, mae'n reit fodlon modlio i ni hefyd, cês de! |
| Catrin | O grêt, roedd pawb wedi mwynhau'r gwasanaeth ganddi flwyddyn diwetha ac mi rof y wybodaeth ar Facebook i deuluoedd a ffrindia'r cartref. Da ni di penderfynu ar lle mae'r casgliad yn mynd? Oedd tair elusen wedi nodi doedd? |
| Gwladys | Roedd Margaret a fi yn siarad neithiwr a hi'n deud fod pawb yn ei hardal hi yn hel at y Dystonia ma, sa hynny yn dda bydda? |
| Veronica | Na i eilio hyna, mae 'na dad ifanc yn pentra 'cw yn dioddef hefyd, coblyn o beth! |
| Catrin | Iawn felly, Gwasanaeth Pasg yma am 10 y bore ar y 31 o Fawrth efo Parch Glenys, casgliad at Gymdeithas Dystonia Cymru, croeso i bawb. Ga i roi hwna ar *Facebook* rwan felly ac mi wnaf bosteri i'w rhoi yn y cyntedd. Reit ta Veronica ac Anna, rhif dau ar yr agenda y Sioe Ffashiwn. Sut hwyl gawsoch chi yn Tenovus efo Lydia a'r criw? |
| Anna | Sôn am hwyl, a merched clên. Mae Lydia yn fwy na bodlon i drefnu'r noson ac mae pump o'r gwirfoddolwyr am helpu hefyd. Da ni wedi gwneud rhestr o fodelau o bob oedran, rhan fwyaf yn deulu a ffrindia'r Cartref a'u plant ac ma pawb wedi cytuno.<br>Mae Mr Jackson yn edrych ymlaen yn arw i 'strutting his stuff' chwadal fo, ac mae Gwladys yn dweud y gwnaiff hi fodelu os wneith Catrin! |
| Catrin | Efo'r ben ôl yma, da chi'n jocian! Ok ta, reit, mi wnai ond dim dillad lan môr, geith Gwladys wneud rheini! Da ni'n cytuno i'r sioe ddechrau am chwech? Bydd yn haws i Marilyn a genod y gegin wedyn, mi fyddan nhw wedi clirio o fewn eu horiau gwaith. |
| Anna | Ydi pawb yn hapus efo dechrau am chwech, bydd rhan fwyaf o'r trigolion yn gallu dod, fydd o ddim yn rhy hwyr ac mi gawn nhw'r bwffe yn lle te gyda'r nos wedyn a chael cyfle i sgwrsio a chymysgu efo pawb. Dau beth gododd wrth sgwrsio efo Lydia oedd y byddai yn falch pe byddai pob model yn mynd i'r siop wythnos nesa o leiaf i gael ffiting er mwyn labelu'r dillad, ac ydan ni am gael catwalk? |
| Sulwen | Mae gennym ni gatwalk yn y clwb 'cw. 'Neith Colin y gŵr a'i ffrindia ddod â fo yma yn y fan i ni dw i'n siŵr. Tydio ddim yn un mawr a tydio ddim yn uchel iawn. |
| Catrin | Champion Sulwen a diolch i ti a Colin a'r criw. Roeddwn i wedi anghofio rhoi'r catwalk ar yr agenda, nei di gofnodi hwna o dan pwynt 2a Anna plîs. Diolch. Reit, pwynt tri, arweinydd y noson, gest ti afael ar yr ocsiwniar Veronica, roedd o'n grêt yn ein noson Ysgol Feithrin ni. |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| Veronica | Do, ac mae am ddod, nes i ddeud y byddan ni wedi gwneud sgript iddo fo. Mae o'n perthyn i Mrs Sonia Owen medda fo, ac mi fydd yn falch o'i gweld. |
| Catrin | Ew 'da chi'n dda yma. Wel, fi rwan, pwynt 4, y bwyd a chysylltu efo pawb. Mae Marilyn a'r criw yn y gegin wedi archebu bwyd ar gyfer y bwffe ac mae rhai o'r trigolion am wneud posteri i'w rhoi o gwmpas y dre ac mi fydda i yn rhoi'r wybodaeth ar *Facebook* y Cartre. Mae Marilyn yn dweud y bydd codi £7.50 am y bwffe yn clirio cost y bwyd ac yn gadael elw i'r Cartref. |
| Gwladys | Wel wir dw i'n edrych ymlaen. Mae fy ngenod i am fod yn fodelau ac mae Margaret am wneud hefyd. |
| Catrin | Reit i grynhoi ac i weld lle 'da ni'n mynd nesa – gwasanaeth yn y bore am 10 efo'r Parch Glenys. Croeso i bawb a chasgliad at y Dystonia. Sioe ffasiwn wedyn i ddechrau am chwech efo bwffe gyda'r nos â'r elw yn mynd i Bodlew.<br><br>Fi i roi gwahoddiadau ar *Facebook* ac i wneud posteri i'w rhoi yma ac yn y dre. Veronica, wnei di gysylltu efo pwy bynnag sydd yn casglu at y Dystonia i weld os oes ganddyn nhw focsys casglu, mi edrychith yn well ar y diwrnod. Anna, wnei di gysylltu efo'r modelau plîs iddyn nhw fynd at Lydia, a Sulwen i drefnu'r catwalk ac i gadarnhau efo'r ocsiwniar. Diolch.<br><br>Dyna ni am wn i, oes 'na unrhyw fater arall? Na? Iawn, diolch i chi am ddod. Gawn ni gyfarfod yr un pryd yr wythnos nesa i ni gael symud ymlaen eto. Hwyl am rwan. |

Gwrandewch ar y recordiad o gyfarfod *Grŵp Adloniant Cartref Preswyl Bodlew*. Chi yw Anna, ysgrifennydd y grŵp.

**(i)** Ysgrifennwch nodiadau o brif bwyntiau’r drafodaeth a’r penderfynidadau.

**(ii)** Lluniwch gofnodion ffurfiol yn seiliedig ar eich nodiadau.

You can follow a similar pattern to this for the minutes:

Teitl: Cofnodion cyfarfod o Grŵp ....
Dyddiad:

1. Presennol
2. Ymddiheuriadau
3. Cofnodion cyfarfod blaenorol – dyddiad
4. Materion yn codi
5. Cofnod o drafodaeth a phenderfyniadau cyfarfod y Grŵp, o dan benawdau pwrpasol
6. Unrhyw fater arall
7. Dyddiad y cyfarfod nesaf

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Level 2/3**

(The script below will need to be recorded)

Chi yw Eira/Richard, ysgrifennydd *Pwyllgor Gwaith Theatr Iago (PGTI).* Dyma sgript o'r cyfarfod a gynhaliwyd nos Fercher, 5 Gorffennaf.

Yn bresennol: Sioned Jones (cadeirydd), Iolo Cadwaladr, Sam Rhys, Miriam Wendon, Rebecca Atlee, Richard Hapsberg, Eira Wyn Richards (Trysorydd), Eifion Prys, Bethan Kelly.

| | |
|---|---|
| Sioned | Noswaith dda, croeso i gyfarfod arall o'r *PGTI*. Fel rydych chi'n gweld o'r agenda mae sawl peth i'w drafod heno. Felly 'mlaen â ni. Diolch i'r ysgrifennydd am y cofnodion taclus. Oes ymddiheuriadau? |
| Chi =Ysg. | Dim ond un. Galwad ffôn gan wraig Wil Huw pnawn ddoe – mae Wil dal yn yr ysbyty. |
| Sioned | Diolch. Dwi'n awgrymu ein bod ni'n anfon cerdyn ato i ddymuno'n dda iddo. Dwi'n siwr gwnei di hynny ysgrifennydd. |
| Ysg. | Wrth gwrs. |
| Sioned | Cofnodion y cyfarfod diwetha. Rhywun yn cynnig eu bod yn gyflawn ac yn gywir? Diolch. Eifion yn cynnig a Richard yn eilio. Oes yna unrhyw faterion yn codi? Beca oes gen ti sylw neu gwestiwn? |
| Beca | Mae sôn yn pwynt 2 yn y cofnodion bod gwaith wedi dechrau ar drwsio drysau cypyrddau yn y gegin. Ydy hynny wedi'i gwblhau bellach? Mae dros 3 mis ers i'r contractwyr ddechrau ar hynny. Roedd golwg ofnadwy ar y lle pan fues i yna ddiwetha. |
| Sioned | Na, does fawr ddim wedi'i wneud hyd y galla i weld. Mi wna i gysylltu efo nhw fory nesa. |
| Richard | Pwy sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith fel hyn? Aelodau'r pwyllgor yma? |
| Sioned | Ie, mae'n debyg, gan nad oes staff cyflogedig yma bellach. Fe wna i holi'r ymddiriedolwyr. Unrhyw bwynt arall o'r cofnodion? Na? Ymlaen at yr agenda go iawn felly. Adroddiad y trysorydd. |
| Eira | Newydd gael y datganiad diweddara o'r banc. Mae pethau'n edrych yn reit dda ar hyn o bryd. Mae £15,473.61 yn y cyfrif ar hyn o bryd. Byddwn mewn sefyllfa i dalu am y gwaith cynnal a chadw – pan fydd wedi'i orffen ynte. Mae rhai o'n cwsmeriaid sy'n llogi'r theatr yn gallu bod yn araf yn talu, rwy'n credu dylen ni godi blaendal ar bawb o fis Medi ymlaen. |
| Eifion | Syniad da. Dwi'n cytuno. |
| Sioned | Pawb yn cytuno efo hynna? Unfrydol. Eira, gelli di roi gwybod i'n cwsmeriad y byddi'n disgwyl blaendal pan fyddan nhw'n llogi. |
| Ysg. | Mae'r bookings wedi cynyddu am y misoedd nesa. Edrych yn eitha da. |
| Sam | Siawns i ni gael gwyliau bach '*courtesy of the theatre'*? |
| Iolo | Diwrnod yn rasys Caer neu Chepstow? |
| Sioned | Doniol, bois. Roeddech chi ddynion yn mynd i drefnu rhyw weithgaredd i godi arian at elusen leol. |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| Iolo | Pam dan ni am godi arian i Allison? Allison, salon harddwch? Rwy'n siwr bod ganddi hi swm go lew yn y banc. Mae'n rhedeg Ford Kuga bron yn newydd. |
| Eifion | Allison? Am be wyt ti'n mwydro? ***Elusen**, achos da*. Do, dwi'n cofio rhywbeth am hynny. Beth am gefnogi Cyfeillion Ysbyty Hengoed y tro 'ma? Glywes i bod angen dipyn o help ar y Cyfeillion. Tipyn o wario wedi bod y llynedd at gael cadeiriau newydd yn y lolfa gyffredinol a'r ystafell aros. |
| Iolo | Byddwn i'n barod i helpu a defnyddio fy nghysylltiadau, helpu gyda sain a goleuo ac ati os bydd eisiau. |
| Sioned | Diolch i chi'ch dau. Rhywbeth arbennig mewn golwg? Yn y theatr? |
| Bethan | Beth am gyngerdd? Mae yna ddigon o dalent yn yr ardal? Rwy'n siwr byddai sawl un yn fodlon helpu. Rhoi cyfle i'r plant a'r bobl ifanc hefyd. Teuluoedd bob amser yn dod i gefnogi. |
| Miriam | Cytuno. Hapus iawn i holi am bobl i roi eitem ar y noson. Pryd fydden ni'n cynnal y cyngerdd ma? |
| Sioned | Unrhyw syniad pryd fyddai'n ymarferol ac yn rhoi amser i baratoi, tocynnau posteri ac ati? Beth am mewn deufis? Medi 2 yn eitha cyfleus. Dim byd arall mlaen yma. Os ydy pawb yn cytuno – beth am rannu'r gwaith allan? Oes rhywun yn barod i helpu. |
| Richard | Wna i holi rhai am eitemau llwyfan, ysgol gynradd er enghraifft. Mae band bach da yna. |
| Miriam | Falle, byddai cael eitem wahanol i'r arfer yn helpu. Meddwl oeddwn i am rywun fel Al Hibbert, y consuriwr – mae e wedi symud i'r ardal i fyw ers ychydig fisoedd. Mae wedi gweithio yn y theatrau mawr yn Lloegr ac yn y clybiau ac ati. Ma e wedi dysgu Cymraeg yn dda iawn hefyd. |
| Eifion | Wel, ie. Dwi wedi clywed am y boi 'ma. Mae'n dda yn gwneud triciau '*close up'.* |
| Sioned | Gwerth holi fyddai ganddo ddiddordeb. Rhaid i ni gofio wrth gwrs mai achlysur codi arian fydd hwn a fyddwn ni ddim yn gallu talu rhyw lawer i rywun proffesyniol. Os byddwch yn cysylltu gyda Al Hibbert, byddai'n iawn i egluro'r sefyllfa. |
| Iolo | Galla i sôn wrth y Côr Meibion. Siŵr wnan nhw gefnogi. Beth am y grŵp o fois ifanc sy'n gwneud gigs yma weithiau. Pwy wneith gyflwyno? Gwerth cael enw adnabyddus. Rhywun o fyd teledu neu radio. |
| Eifion | Wel ie, mae gen ti lot o *contacts* yn y byd yna. Cer ar eu holau nhw! |
| Sioned | Hei! Mae'r amser wedi hedfan. Mae'n mynd yn hwyr. Mae digon o syniadau yna i ddechrau gweithio a threfnu. Sam, wnewch chi holi am brisiau gwneud tocynnau a phosteri. Efallai gallen ni gael nawdd gan ryw fusnes lleol neu genedlaethol ar gyfer hynny. |
| Sam | Wna i holi am brisiau a nawdd. |
| Sioned | Ga i ofyn i'r ysgrifennydd, plis, allwch chi gael y cofnodion yn barod gynted ag sy bosib i bawb wybod be maen nhw wedi addo ei wneud? Gawn ni gwrdd eto mewn pythefnos. Bryd hynny bydd rhaid i ni roi sylw i'r eitemau eraill oedd ar yr agenda ar gyfer heno – cynnal sioe ffasiwn gan siopau dillad y dre at apêl *Help Llaw*, cynhadledd flynyddol y Sgowtiaid. Reit, dyna ni. Diolch i bawb. Cyfarfod ar ben. |

Gwrandewch ar y recordiad o'r sgript. Gwnewch nodiadau ac yna ysgrifennwch gofnodion ffurfiol. Dylech wneud yn siwr bod y cofnodion yn dangos yn glir beth benderfynwyd a phwy fydd yn gwneud y tasgau yn codi o'r penderfyniadau.

© WJEC CBAC Cyf.

# Unit 3: Reading and writing for the purpose of customer service

**Task: Entry 3**



Dyma Simon.

Mae Simon wrth ei fodd yn coginio. Mae wedi gorffen ei gwrs yn y coleg ac yn chwilio am waith. Dyma ychydig o dasgau i chi ddod i adnabod Simon:

**Task 1**

Rhowch linell o dan yr **ar, a'r** neu **â'r** cywir yn y brawddegau:

1. Aeth Simon ar/a'r/â'r frys i'r siop i brynu papur dyddiol a bwyd i'r gath
2. Edrychodd ar/a'r/â'r dudalen hysbysebion am swyddi yn y papur
3. Gwelodd bod siop y cigydd ar/a'r/â'r gwesty lleol yn chwilio am staff newydd
4. Aeth ar wefan y gwesty ar/a'r/â'r unwaith i chwilio am ffurflen gais
5. Ar ôl hynny, cafodd Simon ar/a'r/â'r gath eu cinio.

**Task 2**

Rhowch linell o dan **yw** neu **i'w** yn y brawddegau:

1. Coginio i'w/yw hoff bwnc Simon yn y coleg
2. Breuddwyd Simon i'w/yw gweithio mewn gwesty
3. Ar ôl llenwi'r ffurflen gais, rhoddodd hi i'w/yw chwaer i ddarllen drosti
4. Rhoddodd y ffurflen yn yr amlen yw/i'w phostio yn y bore.

© WJEC CBAC Cyf.

**Task 3**

Cywirwch y gwallau:

| | |
|---|---|
| Enw: | simon morgan |
| Cyfeiriad: | 17 Gerddi Plas, abererch, Gwinedd. ll53 2mm |
| Dyddiad Geni: | 4 hydref 2001 |
| Diddordebau: | bwuta, coginio, cerdded, cerddoriaeth |
| Sgiliau eraill: | dw i'n da ar y cyfrifiadur. Yn mund i dysgu dreifio yn fuan |

**Task 4**

Mae Simon wedi cael llythyr yn ei wahodd i gael cyfweliad am swydd yng Ngwesty Tŷ Mawr wythnos nesaf. Mae angen paratoi. Rhowch wythnos Simon mewn trefn.

1. Darllen am y cwmni
2. Mynd i'r gwely yn fuan
3. Darllen y cais a'i C.V
4. Paratoi cwestiynau i'w gofyn
5. Penderfynu beth i'w wisgo
6. Cynllunio ei siwrnai
7. Diffodd ei ffôn symudol
8. Cyrraedd y cyfweliad yn gynnar
9. Defnyddio 'chi' wrth siarad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Wythnos gynt (rhif) | ---------------- | ------------------ | ---------------- |
| Noson gynt | ---------------- | ------------------ | ---------------- |
| Ar y diwrnod | ---------------- | ------------------ | ----------------- |

**Task 5**

1. Roedd Simon wrth ei fodd pan glywodd ei fod wedi cael y ________________________
2. Cafodd lythyr gan y gwesty yn dweud wrtho'n ______________________________
3. Aeth i'r___________________________i gael dillad gwaith newydd.
4. Roedd yn rhaid i Simon weld y_____________________Iechyd a Diogelwch cyn dechrau ar ei swydd newydd.

swydd swyddfa swyddog swyddogol

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Entry 3**

Rydych yn gweithio mewn siop o’r enw *Blodau Tylluan Wen*. Mae'r rheolwr eisiau i chi drefnu addurniadau ar y byrddau yn y briodas. Dyma beth gwybodaeth:

- Bydd y briodas yn cael ei chynnal ym mis Medi
- Bydd y wledd yn cael ei chynnal mewn marcî mawr ar fferm tad y briodferch
- Bydd tua 200 o westeion yn y briodas
- Gwyn yw'r prif liw, bydd y morynion mewn lliw coch/rhwd
- Byrddau crwn yn dal tua 10 yr un fydd yn y wledd
- Mae'r briodferch eisiau cadw'r addurn yn syml, ond yn wladaidd.

**Part 1:**

Answer the following questions in full sentences:

1. Faint o westeion sydd yn y wledd?
2. Pa liw yw dillad y morynion?
3. Pa fath o addurn mae'r ferch eisiau ar y byrddau?
4. Pryd mae'r briodas?
5. Tua faint o addurniadau fydd angen i chi wneud?

**Part 2: Task: 20-30 words**

Edrychwch ar y wê am luniau addas o addurniadau bwrdd ar gyfer priodas yn y wlad. Dewiswch ddau neu dri esiampl. Anfonwch e-bost at Mrs Baker ar BakerJ@btinternet.com yn gofyn a yw'n hoffi un o'r lluniau.

Byddwch yn:

- Defnyddio 'chi' wrth ysgrifennu at gwsmer
- Yn defnyddio brawddegau syml cywir

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Entry 3/Level 1**

Darllenwch yr hysbyseb ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

**Ffair Haf**

Yng Ngerddi Pant Du

**Prynhawn dydd Iau, Mehefin 14**

Gwestai arbennig – Dr William Henri, Maer Glandŵr

Stondinau cynnyrch gardd a bwydydd
cartref ac arddangosfa gosod blodau

Sioe bypedau a gemau i'r plant

Cystadlaethau o bob math

Raffl – prif wobr – 'Penwythnos i 2 yng ngwesty

Portmeirion' Pris mynediad: £3

Elw at *Hosbis yn y Cartref* ac *Elusen Plant Hafan Deg*

Dewch yn llu!

1. Ble mae'r Ffair Haf yn cael ei chynnal?
2. Pwy yw'r gwestai arbennig?
3. Dywedwch beth fydd yn cael ei werthu ar y stondinau.
4. Faint fydd rhaid i chi dalu i fynd i mewn i'r Ffair Haf?
5. Beth yw'r brif wobr yn y raffl?
6. Pwy fydd yn cael yr elw?
7. Yn eich barn chi, ydy'r Ffair Haf o ddiddordeb i'r teulu? Dywedwch pam.

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Entry 3/Level 1**

Darllenwch yr hysbyseb ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn mewn brawddegau llawn:

**AR WERTH**

*BRYN COCH, Llanrhaeadr, Powys*

Hen ffermdy gyda 4 erw o dir a gerddi yng nghanol sir Powys

Mae'r ffermdy yn cynnwys: 4 ystafell wely, swyddfa fach, ystafell molchi, lolfa, ystafell fyw a chegin fodern helaeth, ynghyd ag ystafell olchi a sychu dillad. Gwres canolog.

Mae garej i 2 gar a lle parcio i 3 char o flaen y tŷ.

O'r ardd gefn cewch olygfa fendigedig o'r ardal o gwmpas.

Safle bws yn gyfleus gerllaw ar gyfer bws ysgol a chludiant i'r dref agosaf.

Pris: £380,000

Angen rhagor o wybodaeth? Ffoniwch yr arwerthwyr,
Cartwright & Jones, ar 01676 422422.

Atebwch y cwestiynau hyn mewn brawddegau llawn.

1. Ble mae'r hen ffermdy?
2. Sawl ystafell wely sydd yn y tŷ?
3. Faint o geir allwch chi barcio wrth y tŷ?
4. Beth allwch chi weld o'r ardd gefn?
5. Beth yw pris y tŷ?
6. Sut galla i gael rhagor o wybodaeth?

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Entry 3/Level 1**

Darllenwch y darn hwn yn ofalus ac atebwch y cwestiynau mewn brawddegau llawn:

## Village Bakery

**Dyma gwmni llwyddiannus sy'n hyderus am y dyfodol.**

"Yn 1964 prynodd fy nhad a minnau y becws teuluol bach yng Nghoedpoeth, Gogledd Cymru," meddai Robert Jones, y Cyfarwyddwr presennol.

"Fel cwmni rydyn ni wedi teithio'n bell ers y cyfnod hwnnw. Bellach rydyn ni'n gweithredu ar dri safle. Yn wir, ni yw'r cwmni sydd wedi tyfu gyflymaf yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf ac yn falch iawn o hynny. Rwy'n falch iawn o hynny.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n cyflogi dros 400 o weithwyr ar draws y 3 safle ac mae gennym fflud o faniau sy'n cludo ein cynnyrch i siopau annibynnol ar draws gogledd a chanolbarth Cymru. Rydyn ni'n arbenigo mewn cynhyrchu bara brown a gwyn, rholiau o bob math, peis a phastai a nwyddau eraill. Bob hyn a hyn byddwn yn cynnig cynnyrch newydd er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion ein cwsmeriaid. Mae'n bara yn cael ei werthu mewn rhai archfarchnadoedd hefyd.

Erbyn hyn mae gennym ganolfan hyfforddi bwrpasol sydd, yn ein barn ni, yn ddatblygiad pwysig. Yma rydyn ni'n gallu darparu cyfnodau o brofiad gwaith i bobl ifanc ac oedolion sydd â diddordeb mewn dysgu sgiliau newydd ac am ddod i weithio yn y diwydiant pobi. Gall y cyfnodau fod rhwng 4 wythnos a 24 wythnos.

Rydyn ni'n edrych ymlaen yn hyderus at y dyfodol." (*Daily Post, Mehefin 2018*)

**Cwestiynau**

1. Beth wnaeth Robert Jones a'i dad yn 1964?
2. Pam mae Robert Jones yn falch?
3. Faint o weithwyr sydd gan *Village Bakery*?
4. Beth yw prif gynhyrchion y cwmni?
5. Ble mae cynhyrchion *Village Bakery* yn cael eu gwerthu?
6. Pam mae'r ganolfan hyfforddi yn ddatblygiad pwysig?

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Level 1**

Read the text below carefully and then answer the following questions:

**Stori Ffred**

Eric ydw i a dw i'n gweithio yng Nghanolfan Arddio Pen y Glyn ers blwyddyn. Dydd Llun ydi hi ac mae Ffred a fi newydd orffan panad ddeg ac yn barod i ail ddechrau chwistrellu yn y tŷ gwydr mawr. Roedd Ffred wedi mwydro fy mhen am y gêm ddydd Sadwrn ers ben bora, a dyma fo'r creadur bach yn cael ei gario i ambiwlans rŵan. Mae boi yr ambiwlans yn dweud ei fod wedi llosgi ei lygaid.

Chwistrellu rhag y clêr oeddan ni. Ffred yn mesur a fi efo'r peiriant – o ni wedi deud wrtho am wisgo gogls, ond dal i chwibanu wnaeth o a gwrando dim. Peth nesa glywais i oedd Ffred yn sgrechian a bu bron iddo basio allan efo'r boen. Daeth Tom yna fel aelod o'r tîm Cymorth Cyntaf ac mi es i i ffonio'r ambiwlans. Roedd Ffred mewn andros o boen a Tom yn golchi ei lygaid efo dŵr heb stop. Bechod de, a ninnau yn gwneud job mor dda a ddoe ddiwetha gwnaeth y rheolwr ddweud mor bwysig oedd gwisgo'r gogls bob amser efo'r chwistrell ac yn ein hatgoffa am beryglon hylif lladd chwyn.

Bydd Ffred o'i go os na chaiff o fynd i'r gêm ddydd Sadwrn nesaf!!!

**A.** Answer these questions in full sentences.

1. Ym mha fath o le mae Ffred yn gweithio?
2. Pam fod yr hylif wedi mynd i lygaid Ffred?
3. Beth oedd y rheolwr wedi'i ddweud wrth y staff?
4. Beth yw rôl Tom yn y digwyddiad yma?
5. Tua pa adeg o'r dydd y mae'r ddamwain wedi digwydd?

**B.** Mae angen i chi ysgrifennu ffurflen ddamweiniau neu RIDDOR y cwmni. Rhowch linell o dan y wybodaeth sy'n berthnasol i'r hyn ddigwyddodd, yna rhannwch y wybodaeth yn barod ar gyfer y ffurflen. I wneud yn siŵr eich bod wedi cael y ffeithiau'n gywir gallwch eu hailysgrifennu o dan y penawdau:

**Cyn y ddamwain:** ..........................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**Y ddamwain ddigwyddodd:** ...........................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**Ar ôl y ddamwain:** .........................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

© WJEC CBAC Cyf.

Darllenwch yr hysbyseb isod ac atebwch y cwestynau sy'n dilyn:

**FFRINDIAU YSBYTY'R BONT**

Mae Ffrindiau Ysbyty'r Bont yn cynnal BORE COFFI yn Yr Institiwt, Stryd y Bont, Caeralaw, bore Gwener, Hydref 12 fed, o 10.00 – 11.30 o'r gloch.

Bydd tocynnau ar werth wrth y drws ar y diwrnod, am £2 yr un (i gynnwys paned â bisged). Bargen!

Bydd cacennau a nwyddau eraill ar werth.

Bydd yr elw yn mynd at brynu cadeiriau newydd i'r ystafell aros.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Jean Evans, Cae Coch ar 0778812355 neu Margaret Ellis ar 02060 645333.

Diolch yn fawr!

Atebwch y cwestiynau isod:

1. Pwy sy'n cynnal y bore coffi?
2. Ble bydd y bore coffi?
3. Am faint o'r gloch mae'r bore coffi yn dechrau?
4. Beth ydy pris y tocynnau?
5. Ble rydych chi'n gallu prynu tocynnau?
6. Beth sydd ar werth yn y bore coffi?
7. At beth fydd yr elw yn mynd?
8. Ble rydych chi'n gallu cael rhagor o wybodaeth?

**Task: Level 1/Level2**

(You can find other tasks which are linked to this task in Units 1,2 and 4).

Rydych ar brofiad gwaith gyda Frank Jones, ***Coed ac Ati***. Rydych wedi bod yn helpu Frank Jones y perchennog i osod 'decking' a ffens addurniadol yng nghartref Mr Ifor Jackson.

Mae'r teulu wedi wrth eu bodd/wedi gwirioni gyda'r gwaith.

Heddiw, daeth Mrs Jackson ar y ffôn i holi a oes posib gosod paneli ffens tu ôl i'r 'decking'. Mae'n teimlo bod pobl drws nesa' yn eu gweld yn bwyta allan ac y byddai ffens ar y wal yn rhoi preifatrwydd i'r teulu yn yr ardd.

Mae Frank Jones yn gofyn i chi ymchwilio i beth sydd ar gael a pha fath o ffens fyddai orau yn eich barn chi.

Byddwch yn ymchwilio i gatalogau'r cwmni ac yn anfon ebost i Mrs Jackson gyda'r lluniau a'r prisiau (gweler maint y decking yn tasg 1).

Cyfeiriad ebost Mrs Jackson yw – JacksonJ52@btinternet.com

© WJEC CBAC Cyf.

# Unit 4: Writing for a Purpose

**Level 1**

Rydych yn gweithio yn y salon trin gwallt newydd ar Stryd y Wennol. Lluniwch hybyseb i'w roi yn y papur lleol yn rhoi gwybodaeth am y salon a'r gwasanaeth mae'n ei gynnig. Cofiwch gynnwys enw'r salon a gwybodaeth am yr oriau agor.

Rydych yn gweithio yn y ganolfan hamdden leol. Lluniwch daflen yn rhoi gwybodaeth am y gweithgareddau sy'n cael eu cynnig yno dros wyliau'r haf. Gallwch dynnu sylw at unrhyw ddigwyddiadau/cystadlaethau arbennig fydd yno yn ystod y gwyliau.

**Task: Level 1/Level 2**

(You can find other tasks which are linked to this task in Units 1,2 and 3)

Rydych wedi bod ar brofiad gwaith gyda Mr Frank Jones, ***Coed ac Ati*** Erbyn hyn rydych yn ôl yn y coleg.

Byddwch yn ysgrifennu llythyr ffurfiol i Mr Frank Jones i ddiolch iddo am yr holl gyfleoedd gawsoch yn ***Coed ac Ati*** i ddysgu a gwella eich sgiliau fel saer coed.

Byddwch yn:

- Cynhyrchu llythyr ffurfiol o tua 100 gair
- Yn defnyddio brawddegau cyflawn a dealladwy
- Yn mynegi barn ar yr hyn wnaethoch ddysgu
- Yn cloi'r llythyr yn addas

**Task: Level 1/Level 2**

Mae meithrinfa Plantos Penrhiw yn trefnu noson i godi arian i gael dodrefn newydd. Lluniwch daflen yn rhoi gwybodaeth am y cyfarfod i'w rhannu â'r rhieni. Cewch chi benderfynu beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod.

Dylech gynnwys gwybodaeth fel hyn:
Pwy sy'n trefnu/cynnal y cyfarfod a pam?
Ble bydd y cyfarfod? Pryd (dyddiad ac amser)?
Pris tocynnau? Ble allwch chi gael tocynnau?

Rydych chi'n gweithio yn y ganolfan gymdeithasol i'r henoed. Lluniwch daflen neu gylchlythyr yn rhoi gwybodaeth am y trefniadau (1) dros gyfnod y Nadolig a/neu'r Pasg NEU (2) y trefniadau ar gyfer dathlu penblwydd y ganolfan yn 20 oed. Bydd y daflen/cylchlythyr yn cael ei dosbarthu i ddefnyddwyr y ganolfan ac i'w teuluoedd.

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Level 1/Level 2**

(You can find other tasks which are linked to this task in Units 1,2 and 3).

Rydych wedi bod ar brofiad gwaith gyda Mr Frank Jones, ***Coed ac Ati*** . Erbyn hyn rydych yn ôl yn y coleg.

Byddwch yn ysgrifennu llythyr ffurfiol i Mr Frank Jones i ddiolch iddo am yr holl gyfleoedd gawsoch yn ***Coed ac Ati*** i ddysgu a gwella eich sgiliau fel saer coed.

Byddwch yn:

- Cynhyrchu llythyr ffurfiol o tua 100 gair
- Defnyddio brawddegau cyflawn a dealladwy
- Mynegi barn ar yr hyn wnaethoch ddysgu
- Cloi'r llythyr yn addas

**Task: Level 2**

**Correcting Mistakes**

Rydych chi'n helpu yn yr ysgol feithrin. Mae'r rheolwr eisiau cwyno am y taflenni newydd. Mae e wedi gofyn i chi brawf-ddarllen y nodyn. Mae 10 camgymeriad.

Taflenni Newydd Ysgol **bryncoed.**

Mae'n ddrwg iawn gyda fi ond dw i ddim yn **happus** o gwbl gyda'r taflenni newydd. **Maer** gwaith yn ddi-liw ac yn **diflas** ofnadwy. Hefyd, mae **tree** llun ar goll! Ble mae'r copi drafft**.** Rydw i wedi ffonio'r cwmni ddydd **Merched** ond doedd y staff ddim yn gallu **help**. **Ffonio** fi ar 867223 **os gwelch yn dda**. Diolch.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

**Practise task**

Cywirwch y gwallau ac ysgrifennwch yr ateb cywir yn y grid isod:

Dwin[1] byw yn abertawe. Mae simena[2] a theatr ger ty fi[3]. Hefyd mae traeth tua chwarter awr i ffwrdd.

Bydd fi[4] wrth fy modd yn surffio[5] yn y Bae bob penwythnos. Mae'r tonau[6] yn huge iawn[7]. Prynodd fi[8] surf board[9] newydd ddoe. Roedd[10] o ddim yn ddrud iawn – cefais ddisgownt da.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 |
| 5 | 6 | 7 | 8 |
| 9 | 10 | | |

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Level 2/Level 3**

Rydych yn aelod o'r tîm sy'n trefnu digwyddiad blynyddol eich cwmni/sefydliad.
*(Y tiwtor neu'r myfyriwr i benderfynu beth yw'r digwyddiad blynyddol).*

**Letter of invitation**

Eich cyfrifoldeb chi yw llunio llythyr yn gwahodd pobl i'r digwyddiad. Bydd angen i chi lunio llythyr safonol i'w anfon at ymwelwyr tebygol. Dylech gynnwys braslun o'r rhaglen a ffurflen ymateb gyda'r llythyr.

**Letter to invite guest speakers**

Mae'ch pennaeth wedi gofyn i chi ddrafftio llythyr pwrpasol, yn gwahodd siaradwyr /cyflwynwyr i'r digwyddiad. Dylech gofio cynnwys:

- Dyddiad a lleoliad y digwyddiad
- Prif bwrpas/thema'r digwyddiad
- Enghreifftiau o gyfranwyr eraill i'r digwyddiad
- Dyddiad ar gyfer cael ei ymateb

Yn ogystal, gallwch awgrymu testun/thema i'r siaradwr ar gyfer ei gyflwyniad.

**Press statement**

Rydych yn aelod o'r tîm sy'n trefnu digwyddiad blynyddol. Chi sydd wedi cael y dasg o baratoi datganiad i'r wasg a fydd yn cael ei anfon i'r papurau lleol ac i'r teledu â'r radio. Bydd y datganiad yn hyrwyddo'r digwyddiad.

Bydd angen:

- Teitl diddorol
- Cynnwys dyddiad, lleoliad a gwybodaeth allweddol am y digwyddiad
- Byddai'n werth cynnwys dyfyniad gan rywun sy'n ymwneud â'r digwyddiad
- Enw'r person i gysylltu ag e/hi ar gyfer cael rhagor o wybodaeth.

The press statement will be about 150 words.

Writing minutes

Ysgrifennwch gofnodion o'r cyfarfod i drefnu'r digwyddiad.

Paratowch set o nodiadau o'r hyn drafodwyd yn y cyfarfod.

***Neu***

Paratowch sgript o drafodaeth yn y cyfarfod i drefnu digwyddiad a'i recordio ac yna

**(i)** gofyn i'r myfyrwyr baratoi nodiadau o'r recordiad

**(ii)** ysgrifennu cofnodion llawn.

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Level 2/Level 3**

Rydych yn gweithio yn swyddfa gwesty Tŷ'r Abad. Mae cwsmer, Mr TJ Catkin, wedi rhoi sylwadau beirniadol iawn am y gwesty ar TripAdvisor ac yn y papur lleol. Nid oedd wedi cwyno wrth y rheolwr/perchennog ar y pryd.

Dyma'r prif bwyntiau sydd ganddo ar TripAdvisor:

- Mae'r disgrifiad o'r gwesty yn y 'brochure' yn gamarweiniol
- Mae'r adeilad mewn cyflwr gwael, - ystafelloedd gwely yn ddi-raen ac angen eu haddurno
- Gwaith cynnal a chadw wedi'i adael heb ei orffen
- Rhai o'r staff yn anghwrtais ac yn amharod i helpu, ond roedd eraill yn groesawgar ac yn barod i roi gwasanaeth cwrtais
- Ar y cyfan roedd y brecwast yn foddhaol, ond ychydig o ddewis oedd ar y fwydlen cinio nos
- Angen glanhau'r pwll nofio
- Offer yn y gampfa ddim yn gweithio
- Ar y cyfan, arhosiad anfoddhaol. Ddim yn mynd yna eto!

Mae Rhosier Rhys, y perchennog, yn teimlo bod y feirniadaeth yn gwbl annheg a bod llawer o'r wybodaeth yn anghywir. Mae'n gofyn i chi ddrafftio llythyr at Mr Catkin yn ymateb i'r sylwadau beirniadol. Gallwch gyfeirio at rai pwyntiau penodol lle roedd y wybodaeth yn anghywir/beirniadaeth yn annheg.

Ysgrifennwch tua 200 o eiriau.

**Task: Level 2/Level 3**

Mae gennych ddiddordeb mewn cael swydd fel gohebydd papur newydd. Er mwyn cael profiad perthnasol rydych yn gweithio yn wirfoddol i'r papur lleol. Mae'r golygydd yn gofyn i chi fynd i agoriad swyddogol y ganolfan hamdden newydd ac ysgrifennu adroddiad am y digwyddiad.

Rhowch deitl pwrpasol i'r adroddiad.

Dylech ddweud pwy agorodd y ganolfan yn swyddogol; dyfyniad gan un neu ddau o'r gwesteion.

Soniwch am y cyfleusterau a'r ddarpariaeth i ddefnyddwyr sydd yn y ganolfan a phwy fydd yn gallu elwa ohoni. Unrhyw ddigwyddiad/achlysur arbennig fydd yn cael ei gynnal yn y ganolfan cyn bo hir.

Ysgrifennwch tua 200 o eiriau.

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Level 2/Level 3**

Chi yw ysgrifennydd Grŵp Adloniant Cartref Preswyl Bodlew.

Dyma sgript o'r drafodaeth yn y cyfarfod a gynhaliwyd 2 Chwefror. Gwrandewch ar y recordiad gan nodi'r prif bwyntiau perthnasol sy'n codi yn y drafodaeth.

(i) Ar sail eich nodiadau, ysgrifennwch gofnodion o'r cyfarfod hwn.

Gallwch ddilyn patrwm tebyg i hwn isod ar gyfer y cofnodion:

| |
|---|
| Teitl: Cofnodion cyfarfod o Grŵp ....<br><br>Dyddiad:<br><br>1. Presennol<br>2. Ymddiheuriadau<br>3. Cofnodion cyfarfod blaenorol – dyddiad<br>4. Materion yn codi<br>5. Cofnod o drafodaeth a phenderfyniadau cyfarfod y Grŵp ..., o dan benawdau pwrpasol<br>6. Unrhyw fater arall<br>7. Dyddiad y cyfarfod nesaf |

**Sgript**

Cyfarfod Staff Grŵp Adloniant Cartref Preswyl Bodlew. Dyddiad: 2 Chwefror

| | |
|---|---|
| Presennol: | Mrs Catrin Parry, dirprwy reolwraig<br>Miss Sulwen Thomas, gweithiwr allweddol<br>Mrs Anna Evans, gweithiwr allweddol<br>Mrs Veronica Jones, gofalwraig<br>Mrs Gwladys Williams, cynrychiolydd y trigolion |
| Catrin | Croeso i chi i gyd a diolch i chi am roi eich awr ginio i fyny genod a diolch i chitha Gwladys am ddod. Dw i wedi rhannu cofnodion cyfarfod mis Ionawr, ydi pawb wedi cael cyfle i'w darllen a wnaiff unrhywun gytuno? |
| Gwladys | Diolch am gael hwn neithiwr Catrin, ges ei ddarllen yn fy amser fy hun. Diolch a chytuno. |
| Pawb | Cytuno. |
| Catrin | Reit ta, diolch i chi a diolch i Anna am gymeryd y cofnodion heddiw. Reit rhif un ar yr agenda heddiw, ateb gan Parch Glenys? Sulwen? |
| Sulwen | Do mae wedi ateb ac mae'n gallu dod am 10 y bore ar yr 31 o Fawrth i gynnal gwasanaeth a chymun Pasg. Mae'r Parch Aled am ddod hefyd. O ia, mae'n reit fodlon modlio i ni hefyd, cês de! |
| Catrin | O grêt, roedd pawb wedi mwynhau'r gwasanaeth ganddi flwyddyn diwetha ac mi rof y wybodaeth ar *Facebook* i deuluoedd a ffrindia'r cartref. Da ni di penderfynnu ar lle mae'r casgliad yn mynd? Oedd tair elusen wedi nodi doedd? |
| Gwladys | Oedd Margaret a fi yn siarad neithiwr a hi'n deud fod pawb yn ei hardal hi yn hel at y Dystonia ma, 'sa hynny yn dda bydda? |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| Veronica | 'Na i eilio hyna, mae 'na dad ifanc yn pentra 'cw yn dioddef hefyd, coblyn o beth! |
| Catrin | Iawn felly, Gwasanaeth Pasg yma am 10 y bore ar yr 31 o Fawrth efo'r Parch Glenys, casgliad at Gymdeithas Dystonia Cymru, croeso i bawb. Ga i roi hwna ar *Facebook* rwan felly ac mi wnaf bosteri i'w rhoi yn y cyntedd.<br><br>Reit ta Veronica ac Anna, rhif 2 ar yr agenda y Sioe Ffashiwn. Sut hwyl gawsoch chi yn Tenovus efo Lydia a'r criw? |
| Anna | Sôn am hwyl, a merched clên. Mae Lydia yn fwy na bodlon i drefnu'r noson ac mae pump o'r gwirfoddolwyr am helpu hefyd. Da ni wedi gwneud rhestr o fodelau o bob oedran, rhan fwyaf yn deulu a ffrindia'r Cartref a'u plant ac ma pawb wedi cytuno. Mae Mr Jackson yn edrych ymlaen yn arw i 'strutting his stuff' chwadal fo, ac mae Gwladys yn dweud y gwnaiff hi fodelu os wneith Catrin! |
| Catrin | Efo'r ben ôl yma, da chi'n jocian, ok ta reit mi wnai ond dim dillad lan môr, geith Gwladys wneud rheini! Da ni'n cytuno i'r sioe ddechrau am chwech? Bydd yn haws i Marilyn a genod y gegin wedyn, mi fyddan nhw wedi clirio o fewn eu horiau gwaith. |
| Anna | Ydi mae pawb yn hapus efo dechrau am chwech, bydd rhan fwyaf o'r trigolion yn gallu dod, fydd o ddim yn rhy hwyr ac mi gawn nhw'r bwffe yn lle te gyda'r nos wedyn a chael cyfle i sgwrsio a chymysgu efo pawb. Dau beth gododd wrth sgwrsio efo Lydia oedd y byddai yn falch pe byddai pob model yn mynd i'r siop wythnos nesa o leiaf i gael ffiting er mwyn labelu'r dillad, ac ydan ni am gael catwalk? |
| Sulwen | Mae gennym ni gatwalk yn y clwb 'cw, neith Colin y gwr a'i ffrindia ddod a fo yma yn y fan i ni dw i siwr. Tydio ddim yn un mawr a tydio ddim yn uchel iawn. |
| Catrin | Champion Sulwen a diolch i ti a Colin a'r criw. Roeddwn i wedi anghofio rhoi'r catwalk ar yr agenda, nei di gofnodi hwna o dan pwynt 2a Anna plis. Diolch. Reit pwynt tri, arweinydd y noson, gest ti afael ar yr ocsiwniar Veronica, roedd o'n grêt yn noson Ysgol Feithrin ni. |
| Veronica | Do, ac mae am ddod, nes i ddeud y byddan ni wedi gwneud sgript iddo fo. Mae o'n perthyn i Mrs Sonia Owen medda fo, ac mi fydd yn falch o'i gweld. |
| Catrin | Ew da chi'n dda yma. Wel, fi rwan, pwynt 4, y bwyd a chysylltu efo pawb. Mae Marilyn a'r criw yn y gegin wedi archebu bwyd ar gyfer y bwffe ac mae rhai o'r trigolion am wneud posteri i'w rhoi o gwmpas y dre ac mi fydda i yn rhoi'r wybodaeth ar *Facebook* y Cartre. Mae Marilyn yn dweud y bydd codi £7.50 am y bwffe yn clirio cost y bwyd ac yn gadael elw i'r Cartref. |
| Gwladys | Wel wir dw i'n edrych ymlaen. Mae fy ngenod i am fod yn fodelau ac mae Margaret am wneud hefyd. |
| Catrin | Reit i grynhoi ac i weld lle da ni'n mynd nesa – gwasanaeth yn y bore am 10 efo'r Parch Glenys. Croeso i bawb a chasgliad at y Dystonia. Sioe ffasiwn wedyn i ddechrau am chwech efo bwffe gyda'r nos â'r elw yn mynd i Bodlew.<br><br>Fi i roi gwahoddiadau ar *Facebook* ac i wneud posteri i'w rhoi yma ac yn y dre. Veronica, wnei di gysylltu efo pwy bynnag sydd yn casglu at y Dystonia i weld os oes ganddyn nhw focsys casglu, mi edrychith yn well ar y diwrnod. Anna, wnei di gysylltu efo'r modelau plîs iddyn nhw fynd at Lydia, a Sulwen i drefnu'r catwalk ac i gadarnhau efo'r ocsiwniar. Diolch.<br><br>Dyna ni am wn i, oes 'na unrhyw fater arall? Na? Iawn. Diolch i chi am ddod. Gawn ni gyfarfod yr un pryd wythnos nesa i ni gael symud ymlaen eto. Hwyl am rwan. |

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Level 2/Level 3**

Chi yw ysgrifennydd Pwyllgor Gwaith Theatr Iago (PGTI). Dyma sgript o'r cyfarfod a gynhaliwyd nos Fercher, 5 Gorffennaf.

Yn bresennol: Sioned Jones (cadeirydd), Iolo Cadwaladr, Sam Rhys, Miriam Wendon, Rebecca Atlee, Richard Hapsberg, Eira Wyn Richards (Trysorydd), Eifion Prys, Bethan Kelly

| | |
|---|---|
| Sioned | Noswaith dda, croeso i gyfarfod arall o'r PGTI. Fel rydych chi'n gweld o'r agenda mae sawl peth i'w drafod heno. Felly 'mlaen â ni. Diolch i'r ysgrifennydd am y cofnodion taclus. Oes ymddiheuriadau? |
| Chi =Ysg. | Dim ond un. Galwad ffôn gan wraig Wil Huw pnawn ddoe – mae Wil dal yn yr ysbyty. |
| Sioned | Diolch. Dwi'n awgrymu ein bod ni'n anfon cerdyn ato i ddymuno'n dda iddo. Dwi'n siwr gwnei di hynny ysgrifennydd. |
| Ysg. | Wrth gwrs. |
| Sioned | Cofnodion y cyfarfod diwetha. Rhywun yn cynnig eu bod yn gyflawn ac yn gywir? Diolch. Eifion yn cynnig a Richard yn eilio. Oes yna unrhyw faterion yn codi? Beca oes gen ti sylw neu gwestiwn? |
| Beca | Mae sôn ym mhwynt 2 yn y cofnodion bod gwaith wedi dechrau ar drwsio drysau cypyrddau yn y gegin. Ydy hynny wedi'i gwblhau bellach? Mae dros 3 mis ers i'r contractwyr ddechrau ar y gwaith hynny. Roedd golwg ofnadwy ar y lle pan fues i yna ddiwetha. |
| Sioned | Na, does fawr ddim wedi'i wneud hyd y galla i weld. Mi wna i gysylltu efo nhw 'fory nesa. |
| Richard | Pwy sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith fel hyn? Aelodau'r pwyllgor yma? |
| Sioned | Ie, mae'n debyg, gan nad oes staff cyflogedig yma bellach. Fe wnaf i holi'r ymddiriedolwyr. Unrhyw bwynt arall o'r cofnodion? Na? Ymlaen at yr agenda go iawn felly. Adroddiad y trysorydd. |
| Eira | Newydd gael y datganiad diweddara o'r banc. Mae pethau'n edrych yn reit dda ar hyn o bryd. Mae £15,473.61 yn y cyfrif ar hyn o bryd. Byddwn mewn sefyllfa i dalu am y gwaith cynnal a chadw – pan fydd wedi'i orffen ynte. Mae rhai o'n cwsmeriaid sy'n llogi'r theatr yn gallu bod yn araf yn talu…..<br>Rwy'n credu dylen ni godi blaendal ar bawb o fis Medi ymlaen. |
| Eifion | Syniad da. Dwi'n cytuno. |
| Sioned | Pawb yn cytuno efo hynna? Unfrydol. Eira, gelli roi gwybod i'n cwsmeriad y byddi'n disgwyl blaendal pan fyddan nhw'n llogi. |
| Ysg. | Mae'r bookings wedi cynyddu am y misoedd nesa. Edrych yn eitha da. |
| Sam | Siawns i ni gael gwyliau bach '*courtesy of the theatre'*? |
| Iolo | Diwrnod yn rasys Caer neu Chepstow? |
| Sioned | Doniol, bois. Roeddech chi ddynion yn mynd i drefnu rhyw weithgaredd i godi arian at elusen leol. |
| Iolo | Pam 'dan ni am godi arian i Allison? Allison, salon harddwch? Rwy'n siwr bod ganddi hi swm go lew yn y banc. Mae'n rhedeg Ford Kuga bron yn newydd! |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| Eifion | Allison, am be wyt ti'n mwydro? Elusen, achos da. Do, dwi'n cofio rhywbeth am hynny. Beth am gefnogi Cyfeillion Ysbyty Hengoed y tro 'ma. Glywes i bod angen tipyn o help ar y Cyfeillion. Tipyn o wario wedi bod llynedd at gael cadeiriau newydd yn y lolfa gyffredinol a'r ystafell aros. |
| Iolo | Byddwn i'n barod i helpu a defnyddio fy nghysylltiadau, helpu gyda sain a goleuo ac ati os bydd eisiau. |
| Sioned | Diolch i chi'ch dau. Rhywbeth arbennig mewn golwg? Yn y theatr? |
| Bethan | Beth am gyngerdd? Mae yna ddigon o dalent yn yr ardal? Rwy'n siwr byddai sawl un yn fodlon helpu. Rhoi cyfle i'r plant a'r bobl ifanc hefyd. Bydd teuluoedd bob amser yn dod i gefnogi. |
| Miriam | Cytuno. Hapus iawn i holi am bobl i roi eitem ar y noson. Pryd fydden ni'n cynnal y cyngerdd ma? |
| Sioned | Unrhyw syniad pryd fyddai'n ymarferol ac yn rhoi amser i baratoi, tocynnau posteri ac ati. Beth am mewn deufis? Mae Medi 2 yn eitha cyfleus. Dim byd arall 'mlaen yma. Os ydy pawb yn cytuno – beth am rannu'r gwaith allan.<br>Oes rhywun yn barod i helpu. |
| Richard | Wna i holi rhai am eitemau llwyfan, ysgol gynradd er enghraifft. Mae Band bach da yna. |
| Iolo | Galla i sôn wrth y Côr Meibion. Siwr wnan nhw gefnogi. Beth am y grŵp o fois ifanc sy'n gwneud gigs yma weithiau? Pwy wneith gyflwyno? Gwerth cael enw adnabyddus. Rhywun o fyd teledu neu radio. |
| Eifion | Wel ie, mae gen ti lot o contacts yn y byd yna. Cer ar eu holau nhw. |
| Sioned | Hei! Mae'r amser wedi hedfan. Mae'n mynd yn hwyr. Mae digon o syniadau yna i ddechrau gweithio a threfnu. Sam, wnewch chi holi am brisiau gwneud tocynnau a phosteri? Efallai gallen ni gael nawdd gan ryw fusnes ar gyfer hynny. |
| Sam | Wna i holi am brisiau a nawdd. |
| Sioned | Ga i ofyn i'r ysgrifennydd, plis, allwch chi gael y cofnodion yn barod gynted ag sy bosib i bawb wybod be maen nhw wedi addo ei wneud? Gawn ni gwrdd eto mewn pythefnos. Bryd hynny bydd rhaid i ni roi sylw i'r eitemau eraill oedd ar yr agenda ar gyfer heno – cynnal sioe ffasiwn gan siopau dillad y dre at apêl *Help Llaw*, cynhadledd flynyddol y Sgowtiaid. Reit, dyna ni.<br>Diolch i bawb. Cyfarfod ar ben. |

Gwrandewch ar y recordiad o'r sgript. Gwnewch nodiadau ac yna ysgrifennwch gofnodion ffurfiol. Dylech wneud yn siŵr bod y cofnodion yn dangos yn glir beth benderfynwyd a phwy fydd yn gwneud y tasgau yn codi o'r penderfyniadau.

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Level 2/Level 3**

Rydych yn gweithio yn swyddfa gwesty Tŷ'r Abad. Mae cwsmer, Mr TJ Catkin wedi rhoi sylwadau beirniadol iawn am y gwesty ar *TripAdvisor* ac yn y papur lleol. Nid oedd wedi cwyno wrth y rheolwr/perchennog ar y pryd.

Dyma'r prif bwyntiau sydd ganddo ar *TripAdvisor*:

- Mae'r disgrifiad o'r gwesty yn y 'brochure' yn gamarweiniol
- Mae'r adeilad mewn cyflwr gwael – ystafelloedd gwely yn ddi-raen ac angen eu haddurno
- Gwaith cynnal a chadw wedi'i adael heb ei orffen
- Rhai o'r staff yn anghwrtais ac yn amharod i helpu, ond roedd eraill yn groesawgar ac yn barod i roi gwasanaeth cwrtais
- Ar y cyfan roedd y brecwast yn foddhaol, ond ychydig o ddewis oedd ar y fwydlen cinio nos
- Angen glanhau'r pwll nofio
- Y gampfa ddim ar agor ar yr adegau a nodwyd wrth y drws
- Ar y cyfan, arhosiad anfoddhaol. Ddim yn mynd yna eto!

Mae Rhosier Rhys, y perchennog, yn teimlo bod y feirniadaeth yn gwbl annheg a bod llawer o'r wybodaeth yn anghywir. Mae'n gofyn i chi ddrafftio llythyr at Mr Catkin yn ymateb i'r sylwadau beirniadol. Gallwch gyfeirio at rai pwyntiau penodol lle roedd y wybodaeth yn anghywir/beirniadaeth yn annheg.

Write about 200 words.

**Task: Level 2/Level 3**

Mae gennych ddiddordeb mewn cael swydd fel gohebydd papur newydd. Er mwyn cael profiad perthnasol rydych yn gweithio yn wirfoddol i'r papur lleol yn ystod y gwyliau ac ar ambell benwythnos. Mae'r golygydd yn gofyn i chi fynd i agoriad swyddogol y ganolfan hamdden newydd ac ysgrifennu adroddiad am y digwyddiad.

Rhowch deitl pwrpasol i'ch adroddiad.

Dylech ddweud pwy agorodd y ganolfan yn swyddogol. Rhowch ddyfyniad byr gan un neu ddau o'r gwesteion.

Soniwch am y cyfleusterau a'r ddarpariaeth i ddefnyddwyr sydd yn y ganolfan a phwy fydd yn gallu elwa ohoni.

Unrhyw ddigwyddiad/achlysur arbennig *e.e.* twrnameint pêlrwyd, gala nofio fydd yn cael eu cynnal yn y ganolfan cyn bo hir.

Write about 200 words.

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Level 3**

**Translanguaging exercise**

Darllenwch y darn isod yn ofalus ac ysgrifennwch grynodeb ohono (75-100 o eiriau) yn Gymraeg i'w gyflwyno mewn e-bost i'ch pennaeth, Morgan Harris, swyddog Diogelwch y Ffyrdd, Cyngor Sir … (ychwanegwch ardal yma)

**Potholes and heavy lorries 'putting people off cycling'**

The state of Britain's roads is stopping more people from cycling, a survey has suggested. More than half (56%) of people say they would cycle more if roads had fewer faults such as potholes, according to research commissioned by charity Cycling UK.

Some 22 cyclists were killed and 368 seriously injured where a poor or defective road surface was a factor between 2007 and 2016, Department of Transport figures show.

One in five local roads in England and Wales is in poor condition as councils face funding deficit to tackle potholes, a recent report by the Asphalt Industry Alliance warned.

Cycling UK's head of campaigns, Duncan Dollimore said: "Cycling is still a minority activity in the UK with only 2% of all journeys made by bike".

"Those who do cycle put up with potholes and dangerous traffic conditions daily and still continue. However, it's not always pleasant and it's no surprise most people do not consider cycling for their short everyday journeys."

The charity's poll found that poor road conditions was the joint second most common reason for avoiding travel by bike, alongside drivers overtaking too closely.

Having to share the road with lorries and other large vehicles was ranked number one.

*(Daily Post, Mehefin 2018)*

© WJEC CBAC Cyf.

**Task: Level 3**

**Translanguaging exercise**

Darllenwch y darn isod ac ysgrifennwch grynodeb (60-80 gair) yn Gymraeg ar gyfer cyflwyniad i'ch dosbarth ar rai o ddyfeiswyr enwog Lloegr a Chymru. Gallwch ddefnyddio pwyntiau bwled ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth ar PowerPoint.

GREAT INVENTORS

Percy Shaw 1890 – 1976

Percy Shaw was an English inventor and businessman.

Shaw was inventive from an early age, but his most famous invention was the cat's eye for lightening the way along our roads in the dark. There are several stories about how he came up with the idea. The most famous involves him driving down a very dark road with a very steep drop to one side  It was a very foggy night and Percy felt quite disorientated (lost?). Then, a cat sat on a fence along the edge of the road looked at the car and reflected his headlights back to him allowing Shaw to check where he was and to remain safely on the road.

Shaw quickly realised that a reflector in the middle of the road would help drivers in very dark areas and help to reduce accidents. After several years of planning and testing, he patented his invention in 1934, and a year later, the Ministry of Transport gave their approval and even the blackout during the second World War gave a huge boost to production.

Percy Shaw has been listed amongst the 50 greatest British inventors.

**Task: Level 3**

Rydych wedi derbyn llythyr o gŵyn gan deulu un o ddefnyddwyr y ganolfan dydd. Mae'n cwyno bod y lle'n ddigroeso ac nad oes digon o weithgareddau yno ar gyfer y defnyddwyr.

Lluniwch lythyr yn ymateb i'r gŵyn, gan roi peth gwybodaeth am yr hyn a gynigir yno a bod pob ymdrech yn cael ei wneud i ddarparu ar gyfer anghenion pob defnyddiwr unigol. Gallwch nodi unrhyw anawsterau sydd gennych yn y ganolfan ar hyn o bryd, e.e. salwch staff, toriadau yn y cyllid sydd ar gael.

**Practice Task**

Mae Undeb y Myfyrwyr yn bwriadu cyflwyno llythyr i bennaeth y coleg yn y dyfodol agos yn gofyn am welliannau yn y gwasanaethau i'r myfyrwyr yn y coleg. Ar gyfer hynny mae'n bwysig casglu gwybodaeth a barn myfyrwyr ar draws y coleg. Bydd y wybodaeth yn cael ei chasglu trwy ddefnyddio sawl dull yn cynnwys cyfarfodydd o grwpiau o fyfyrwyr, bocs syniadau, sgwrsio ag unigolion, a holiaduron.

Mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr wedi gofyn i chi lunio holiadur pwrpasol yn Gymraeg i gasglu gwybodaeth a barn y myfyrwyr am y gwelliannau yr hoffen nhw eu gweld yn y gwasnaethau i fyfyrwyr yn y coleg. Mae'n debyg y bydd yr holiadur yn cynnwys 8-10 o gwestiynau. (Bydd eich holiadur yn cael ei gyfieithu i Saesneg, unwaith y bydd wedi'i baratoi gennych.)

© WJEC CBAC Cyf.

(Byddai'n briodol i chi gael golwg ar wahanol fathau o holiaduron i weld y math o gwestiynau sy'n cael eu gofyn, sut mae cwestiynau yn cael eu geirio, a ffurf yr atebion y gall ymatebwyr eu rhoi (e.e. ie/nage; ticio un bocs, ysgrifennu ateb a rhoi barn bersonol), holiaduron ar bapur neu ar lein (e.e. *survey monkey*).

**Language Exercises**

Rhowch **a**, **â**, **ac** neu **ag** yn y brawddegau hyn gan dreiglo'r gair sy'n dilyn pan fo angen:

1. Peidiwch … siarad … ymlaen â'ch gwaith.
2. A fyddech mor garedig … ateb y llythyr cyn gynted … y bo modd
3. Os gwelwch chi'n dda, cysylltwch … mi ar unwaith.
4. Ysgrifennwch lythyr at Dafydd … Elin.
5. Torrodd Siôn ei fys … cyllell.

Rhowch **a'r** neu **â'r** neu **ar** yn y brawddegau a ganlyn:

1. Daeth y tiwtor … papaurau arholiad i'r Neuadd a'u gosod … y bwrdd.
2. Cerddodd Siwan adref … ei phen ei hun.
3. Gadewch eich aseiniadau … fy nesg, os gwelwch yn dda.
4. Dydy'r arholiad hwn ddim mor hawdd … arholiad cyntaf.
5. "… Rhodri mae'r bai", meddai'r myfyriwr.

Rhowch **yw** neu **i'w** yn y brawddegau hyn:

1. Nyrs … Carys ac mae newydd fynd … gwely ar ôl bod yn gweithio shifft nos.
2. Pwy … eich hoff awdur?
3. Mae'r dosbarth i gyd yn mynd … dŷ ef heno.
4. Nid … ffreutur y coleg yn ddigon mawr bellach.
5. Ef … llywydd yr Undeb eleni ac mae llawer o bobl yn mynd … swyddfa i gael cyngor.
6. Mae gan y darlithydd lawer o aseiniadau … marcio cyn diwedd y tymor.
7. Beth … eich cyfeiriad e-bost, os gwelwch yn dda?
8. Rhoddodd Huw yr anrheg … frawd.

Rhowch gollnod/sillgoll lle mae eu hangen yn y brawddegau isod a chywirwch unrhyw gamgymeriadau:

1. Mae'n rhaid ymarfer y'n gyson I gadw yn heini.
2. Dewch I ein y ni cyn naw or gloch
3. Byddaf yn mynd ir coleg bore yfory erbyn naw or gloch.
4. Aeth John iw waith yn gynt nag arfer hedddiw
5. Byddan nhw'n mynd adref a'm unarddeg or gloch.
6. Roedd wedi anghofioi focs bwyd
7. Dynar tro cyntaf ar tro olaf.
8. Cofiwch wrando a'r y newyddion heno.

© WJEC CBAC Cyf.

**TRANSLANGUAGING**

**Exercise**

## Robert Recorde (1510 - 1558)



Recorde was born in Tenby in the year 1510, the second son of Thomas Recorde from town in Pembrokeshire and of Rose Jones of North Wales. He was a gifted child, receiving his early education in the small school that was then based in the town church.

However, when he was just fifteen years old Recorde left Tenby to make his way to Oxford where he began a course of studies in mathematics. It must have been a terrifying experience for a young man from the far west of Wales to suddenly be thrust into the bustling academic life of Oxford, but he persevered and he gained his degree in 1531.

In 1545, Recorde went to Cambridge where he studied for a degree in medicine. It was in this field that he first made his mark in the world. He became physician to the young king Edward V1 and, after his death from TB, to Queen Mary - despite his clear Protestant leanings. Recorde even dedicated some of his books to this Catholic monarch and quickly earned the respect of Bloody Mary, even though she was known for sending a number of Protestant martyrs to be burned at the stake.

However, it is as a mathematician that Recorde will be remembered. He wrote several text books such as The Grounde of Artes in 1540 and a text book on Physics in 1545. Interestingly, Recorde wrote in English, not in the Latin that was usual for academic books at this time. He wanted everyone to be able to read his works.

His most influential work was The Whetstone of Witte. This book appeared in 1557 and is credited as being the book that first introduced algebra into Britain. It was this book that first introduced the readers to the equals sign (=) .

The concept was not immediately popular but by 1700, in a shortened or abbreviated form, the equals sign had become accepted throughout the country - for working out bills, for academic study, even as a method of speech. There is a memorial to Recorde in St Mary's Church in Tenby but, other than that, most people will never have heard about this remarkable and far- sighted mathematician.

**Task:**

Rydych yn paratoi ar gyfer rhoi cyflwyniad yn Gymraeg ar rai o enwogion Cymru. Darllenwch hanes Robert Recorde ac ysgrifennwch nodiadau amdano yn Gymraeg. Gallwch gyflwyno’r wybodaeth ar ffurf pwyntiau bwled. (tua 100 -120 o eiriau).

© WJEC CBAC Cyf.

## APPENDIX 1

# Essential Vocabulary and Structures

**Content**

The vocabulary and structure on the following pages provide the main language elements that candidates should be familiar with and should be able to use in situations of customer service.

The content is categorised as follows: **Entry 3, Level 1, Level 2, Level 3.**

© WJEC CBAC Cyf.

# Entry 3

**Cyfarchion**
Bore da; Prynhawn da; Noswaith dda.

**Ffarwelio**
Da bo chi; Hwyl fawr; Diolch am alw; Gobeithio cawn ni'ch gweld chi eto; Galwch eto.

**Cyflwyno'ch hun**
Jack Roberts ydw i.    Marian Rees ydw i.  Mr Rhys Davis dw i.

**Cyflwyno/ Cyfeirio at**
Dyma .... Dyna .....

Dyma Tom Edwards, rheolwr; Bethan Hill, gweithiwr cymdeithasol; Dyna swyddfa Tom.

**Gwerthfarwogiad/Cwrteisi sylfaenol**
Diolch yn fawr; Os gwelwch yn dda;
Diolch am ddod/am alw/ffonio/am roi gwybod i ni.

Defnyddio **TI** a **CHI** yn briodol.
Yn ôl pob tebyg, bydd cyflogwyr yn disgwyl bod gweithwyr yn defnyddio chi wrth siarad â chwsmeriaid/cleientau.

**Amser Presennol BOD**

| | |
|---|---|
| Rydw i/Rwy'n gweithio/Dw i'n gweithio | Dydw i ddim /Dw i ddim yn gweithio |
| Mae e/o/hi/Bryn | Dydy o/e/hi/Bryn ddim/Dyw e ddim yn |
| Rydyn ni'n/Dyn ni'n (gwerthu) | Dydyn ni ddim yn/Dyn ni ddim yn (gwerthu) |

(*Defnyddio *Rydyn ni/Dyn ni* i gyfeirio at y sefydliad/busnes/man gwaith)

**Amherffaith**

| | |
|---|---|
| Roeddwn i/Ro'n i | Doeddwn i ddim/Do'n i ddim |
| Roedd Ben/o/e/hi | Doedd Ben/o/e/hi ddim |

**Dyfodol**

| | |
|---|---|
| Bydda i yn y swyddfa | Fydda i ddim ... |
| Bydd o/hi/Sheila | Fydd o/hi/Sheila ddim |
| | |
| Hoffwn i | Hoffwn i ddim |
| Hoffwn i fyw yn ..... | |

**Cwestiynau sylfaenol**
Ble? Sut? Pryd? Beth? Pwy ydy/sy?
**Ble** mae'r swyddfa?
Ble rydych chi'n byw/gweithio?/Ble dych chi'n byw/gweithio?
**Pryd** mae'r pennaeth yn dod yn ôl?
**Sut** rydych chi heddiw?/Sut dych chi heddiw?

**Beth** ydy'ch enw/gwaith chi?/Beth yw'ch enw/gwaith chi?
**Beth** ydy'ch/Beth yw'ch enw a'ch cyfeiriad, os gwelwch yn dda?
**Beth** ydy'ch/yw'ch rhif ffôn/cyfeiriad e-bost ...?

© WJEC CBAC Cyf.

**Faint** ydy'r cyfrifiadur yma?

**Pwy** ydy'r rheolwr? Geraint Price ydy'r rheolwr
Geraint Price ydy'r rheolwr? Ie/Nage

Pwy sy'n gweithio wrth y ddesg yma? Sheila sy'n gweithio wrth y ddesg yma

**Oes ....?** Oes/Nag oes; **Ydy ...?** Ydy /Nag ydy.

| | |
|---|---|
| **Ydych chi/Dych chi ... ?** | Ydw/Nag ydw |
| Ydych chi'n/Dych chi'n gweithio yma? | Ydw/ Nag ydw |
| **Oeddech chi/O'ch chi ...?** | Oeddwn/Nag oeddwn/O'n/Nac o'n |
| **Oedd o/e/hi ...?** | Oedd/Nag oedd |
| **Fyddwch chi ...?** | Bydda /Na Fydda |
| **Fydd o/e/hi ...?** | Bydd/Na fydd |

**Defnyddio**
Mae gen i/Mae gennych chi/Mae . . . gyda fi/'da fi

**Rhoi gorchmynion/Cyfarwyddiadau** fel:
Prynwch; Dywedwch; Rhowch; Arhoswch; Gadewch; Edrychwch;
Dos/Ewch; Tyrd/Dewch; Peidiwch â; Ffordd yma; I'r dde/chwith; Syth ymlaen.

**Defnyddio cysylltwyr** – a; ac; ond.

**YR AMSER**

**Faint o'r gloch?**
Chwarter i dri; pum munud i unarddeg; ugain/dau ddeg munud wedi; pum munud ar hugain/dau ddeg pump munud i.

*Yn ddelfrydol dylid defnyddio'r ffurfiau traddodiadol o ddweud faint o'r gloch ydy hi. Mae'n debyg y bydd rhai ymgeiswyr yn fwy cyfarwydd â defnyddio'r cloc 24 awr: 16.20, 15.55 ac yn y blaen.*

Hefyd:

**Dyddiau'r wythnos, misoedd, dyddiadau**
Heddiw, ddoe, yfory, echdoe, heno, neithiwr, prynhawn 'ma, bore fory.

**Termau rhifiadol sylfaenol**
Deall a defnyddio rhifau 1-100 (fel lleiafswm).

**Dyddiadau**
10fed o Awst; Awst y 10fed; Awst 10.

**Cyfrif arian**
Dwy bunt; tair punt/ceiniog; can punt; dau gan punt; dau gant o bunnoedd/bunnau; mil o bunnoedd.

**Prisiau**
Beth ydy pris ...? Faint ydy ...?

£3.00 Tair punt *yr un*; Tair punt *y litr*; £2.60 Dwy bunt chwe deg *y kilo.*

© WJEC CBAC Cyf.

**Cyflwyno'r TREIGLAD MEDDAL**

- Mewn enw benywaidd ar ôl **y fannod 'y'**: y **f**erch (m-f); y **dd**afad (d-dd); y **f**uwch (b-f);
- Mewn enw benywaidd ar ôl **dwy**: dwy **f**erch (m-f); dwy **d**ref (t-d); dwy **b**unt (p-b);
- Mewn enw gwrywaidd ar ôl **dau**: dau **dd**yn (d-dd); dau **f**achgen (b-f);
- Mewn ansoddair ar ôl **yn**: yn **dd**a; yn **dd**rud (d-dd); yn **f**awr (m-f); yn **f**ach (b-f); yn **g**aled (c-g); yn *wag (g-*);
- Mewn ansoddair ar ôl **enw benywaidd**: cadair ddrud; ystafell fawr.

**Ymddiheuro**
Mae'n ddrwg gen i; gyda fi; 'da fi; mae'n flin 'da fi.

**Mynegi barn/teimlad**
Rwy'n hoffi; Dydw i ddim yn hoffi; Mae'n well gen i; Mae'n well gyda fi; Mae'n well 'da fi.

**Gofyn caniatâd**
Ga i .... os gwelwch yn dda?; Ydy hi'n iawn i fi...?; Fyddai hi'n iawn i mi ...?.
Fyddech chi'n fodlon i mi gymryd dydd Iau nesaf fel diwrnod o wyliau, os gwelwch yn dda?

**Atalnodi'n gywir**
Gan gynnwys defnyddio prif lythrennau (enw person a lle, dechrau brawddeg), atalnod llawn, marc cwestiwn

**Sillafu**
Sillafu'r geiriau a ddefnyddir amlaf yn gywir

**Geirfa-bob-dydd** y man gwaith a rhai termau technegol/arbenigol.

© WJEC CBAC Cyf.

# Level 1

Entry 3 above in addition to:

| | |
|---|---|
| **Amser Presennol BOD** | |
| Rydw i /Dw i/Rwy'n gweithio yma | Dydw/Dw i ddim yn gweithio yma |
| Rwyt ti | Dwyt ti ddim |
| Mae e/o/hi/Rhian | Dydy/Dyw e/o/hi/Rhian ddim |
| Rydyn ni /Dyn ni | Dydyn/Dyn ni ddim |
| Rydych chiDych chi | Dydych/Dych chi ddim |
| Maen nhw | Dydyn nhw ddim |
| | |
| **Amherffaith BOD** | |
| Roeddwn/R'on i'n gwerthu | Doeddwn/Do'n i ddim |
| Roeddet ti/Ro't ti | Doeddet/Do't ti ddim |
| Roedd e/o/hi Jac | Doedd e/o/hi/Jac ddim |
| Roedden/Ro'n ni | Doedden/Do'n ni ddim |
| Roeddech/Ro'ch chi | Doeddech/Do'ch chi ddim |
| Roedden/Ro'n nhw | Doedden/Do'n nhw ddim |
| | |
| **Amser Dyfodol BOD** | |
| Bydda i'n mynd i'r gêm heddiw | Fydda i ddim ... |
| Byddi di ... | Fyddi di ddim ... |
| Bydd e/o/hi/Sara | Fydd e/o/hi/Sara ddim ... |
| Byddwn ni ... | Fyddwn ni ddim ... |
| Byddwch chi ... | Fyddwch chi ddim ... |
| Byddan nhw ... | Fyddan nhw ddim ... |

**Gofyn ac Ateb cwestiynau**
*Ar y lefel hon dylai ymgeiswyr allu gofyn ac ateb amrywiaeth o gwestiynau, gan roi'r ffurf gywir (Yes/No),* e.e.

**Oes ...?** Oes/Nag oes
**Wyt ti ...? /Ydych chi** ...?/**Dych chi** . . .? Ydw/Nag ydw
**Ydyn nhw ...?** Ydyn/Nag ydyn
**Oeddet ti/O't ti ...?** Oeddwn/Nag oeddwn/O'n/Nac o'n
**Oeddech chi/O'ch chi ...?** Oeddwn/Nag oeddwn/O'n/Nac o'n
**Oedd e/hi/Susan** ...? Oedd/Nag oedd
**Oedden nhw /O'n nhw...?** Oedden/Nag oedden/O'n/ Nac o'n

**Fyddi di ...?** Bydda/Na fydda
**Fyddan nhw ...?** Byddan/Na fyddan
**Fyddwch chi ...?** Byddwn/ Na fyddwn

**Pwysau**
(owns, pwys, stôn, tunnell; kilo, litr)
Dwy/tair/pedair owns; dau bwys; dwy stôn; dwy dunnell; dau kilo.

**Mesur/Pellter**
modfedd, troedfedd, llathen, milltir, milimedr, centimedr, medr, kilomedr, dwy droedfedd; tair milltir.

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| Defnyddio **Gan/Gyda** | |
| Mae gen i/gyda fi/'da fi ... | Does gen i ddim/Does dim . . .gyda fi/'da fi |
| **Neu** Mae *car coch* gen i | |
| Mae ganddo fe/ . . . gyda fe | Does ganddo fo ddim/Does dim . . gyda fe/hi |
| Mae ganddi hi/ . . . gyda hi | Does ganddi hi ddim/Does dim . . . gyda fe/hi |
| Oes gennyt ti/gennych chi ...? | Oes/Nag oes |
| Oes... gyda ti/chi? | |
| Oes ganddyn nhw ...? | |
| Defnyddio **rhaid (i)** | |
| *(Mae)* rhaid i mi weithio'n hwyr heno | Does dim rhaid i mi ... |
| *(Mae)* rhaid i ti ... | Does dim rhaid i ti… |
| *(Mae)* rhaid iddo fe ... | |
| *(Mae)* rhaid iddi hi ... | |
| *(Mae)* rhaid i ni ... | |
| *(Mae)* rhaid i chi ... | |
| *(Mae)* rhaid iddyn nhw/iddynt hwy ... | |

**Mynegi barn**
Beth ydy dy farn di?
Beth ydy'ch barn chi?
Yn fy marn i …
Rydw/Dw i'n cytuno gyda … | Dydw/Dw i ddim yn cytuno …
Rydw/Dw i'n anghytuno gyda …
Pam ydych/dych chi'n cytuno/anghytuno gyda...?
Rydw/Dw i'n cytuno/anghytuno achos …
Rhowch eich rhesymau/Rhowch resymau
Mae'n well gen i/gyda fi/'da fi
Rydw/Dw i'n meddwl; credu

Defnyddio **ar, a'r**
**Ar** y fwydlen heno, mae...
Mae'r papurau **ar** y ddesg
Mae rheolwr **a'r** ysgrifennydd yma heddiw

Defnyddio **i'r, o'r**
Roedden/Ro'n nhw'n mynd **i'r** ysbyty Maen nhw'n dod **o'r** Gogledd.

**Mesur/Pellter**
modfedd; troedfedd; llathen; milltir; milimedr; centimedr; medr; kilomedr.
**Atalnodi'**n gywir gan gynnwys defnyddio 'collnod' a 'gwahannod (coma)'.
**Geiriau bob dydd** y man gwaith a rhai termau technegol.

© WJEC CBAC Cyf.

# Level 2

Level 1 above in addition to:

Amser **PRESENNOL, GORFFENNOL, PERFFAITH, DYFODOL berfau**

**cyffredin Presennol**
Rydw i/Rwy'n byw/Dw i'n ...
Rydyn/Dyn ni'n byw... (*ac yn y blaen*)

**Gorffennol**
Prynais i ... (I bought)
Prynaist ti ...
Prynodd e/o/hi/Huw ....
Prynasom ni/Prynon ni ...
Prynasoch chi/Prynoch chi ...
Prynasant hwy/Prynon nhw ...

Yn aml iawn defnyddir:
Gwnes i brynu/Gwnest ti brynu/Gwnaeth o/e/hi ...
Gwnaethon ni/Gwnaethoch chi/Gwnaethon nhw ...

Wnes i **ddim** prynu/Wnaethoch chi ddim .../Wnaethon nhw ddim ...

Ac yn y Gogledd ceir hefyd:
